HSE

Awdurdod Gweithredol
Iechyd a Diogelwch

Penderfyniad ar y cais i gynnal prosiect digomisiynu yn

Atomfa'r Wylfa

o dan Reoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu) 1999 (fel y'u diwygiwyd)



NUC28W
Adroddiad Niwclear

Y penderfyniad ar y cais i gynnal prosiect digomisiynu yn Atomfa Wylfa o dan Reoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu) 1999 (fel y'u diwygiwyd)

Adroddiad a luniwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

© *Hawlfraint y Goron* Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio at ddibenion hysbysebu, arnodi a masnachu. Cyhoeddwyd gyntaf 03/09. Dylid cydnabod y ffynhonnell fel HSE.

Argraffwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Mawrth 2009

Ceir rhagor o gopïau gan:

Health and Safety Executive
Knowledge Centre
Building 1
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Merseyside
L20 7HS

Ffôn: 0151 951 4000
e-bost: knowledge.centre@hse.gsi.co.uk

Ar gael ar y rhyngrwyd yn:
www.hse.gov.uk/nuclear/

CYNNWYS **Tudalen**

RHAGAIR....v
CRYNODEB....vi
CYFLWYNIAD 1
CEFNDIR 2
Y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelwch niwclear 2
Deddf Gosodiadau Niwclear 1965 2
Deddfwriaeth arall sy'n ymdrin â pheryglon niwclear a radiolegol 2
Effeithiau digomisiynu ar wledydd eraill 2
Rheoleiddwyr ac eraill sy'n cydweithio 3
Y broses ddeddfwriaethol o dan EIADR 3
Cais am ganiatâd i gynnal prosiect digomisiynu 3
Ymgynghoriad cyhoeddus ar ddatganiad amgylcheddol 4
Ymgynghoriad cyhoeddus ar wybodaeth bellach 4
Tystiolaeth i wirio gwybodaeth yn y datganiad amgylcheddol 4
Newid neu ymestyn prosiect digomisiynu 4
Effeithiau digomisiynu ar wledydd eraill 5
Rhoi caniatâd a gosod amodau 5
Tryloywder penderfyniad HSE ar gais 5
CAIS I GYNNAL PROSIECT DIGOMISIYNU 6
Y broses ymgynghori 6
Cais am farn cyn gwneud cais 6
Ymgynghori â'r cyhoedd ar y datganiad amgylcheddol 6
Cais am dystiolaeth i wirio gwybodaeth yn y datganiad amgylcheddol 6
Sefydliadau a gymerodd ran yn y broses ymygynghori 7
Pynciau a godwyd gan ymgyngoreion o ran y datganiad amgylcheddol – trosolwg 7
Pynciau nas ystyriwyd i gael tystiolaeth na gwybodaeth bellach – pynciau a godwyd gan ymgyngoreion 7
RHESYMAU DROS ROI CANIATÂD 9
Penderfyniad i roi caniatâd 9
Gwybodaeth a roddwyd 9
Manteision ac anfanteision amgylcheddol ac ystyried mesurau i reoli effeithiau amgylcheddol andwyol (mesurau lliniaru) 9
Effeithiau ar wledydd eraill 10
Materion yr ymdrinnir â hwy rywle arall – cynllunio gwlad a thref 10

Materion yr ymdrinnir â hwy rywle arall – deddfwriaeth yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd 11

Materion yr ymdrinnir â hwy rywle arall – amserlenni digomisiynu: Y cysylltiad rhwng polisi'r llywodraeth, strategaeth ddigomisiynu a mentrau Ewropeaidd ac EIADR a datganiad amgylcheddol Atomfa Wylfa 11

Polisi'r llywodraeth 11

Adolygu'r strategaeth ddigomisiynu……..12

Mentrau'r Comisiwn Ewropeaidd 12

Wylfa 12

AMODAU A OSODWYD AR Y CANIATÂD 13

Cynnwys yr amodau 13

Rhesymau dros yr amodau 13

Amod 1 13

Amod 2 13

Amod 3 14

Amod 4 14

Amod 5 15

Amod 6 15

ATODIAD 1 Barn cyn gwneud cais 16

ATODIAD 2 Ymgyngoreion y datganiad amgylcheddol 41

ATODIAD 3 Ymgyngoreion a ymatebodd i'r datganiad amgylcheddol 44

ATODIAD 4 Rhesymau dros y pynciau nas ystyriwyd at ddibenion tystiolaeth neu wybodaeth bellach 45

ATODIAD 5 Caniatâd ac Amodau 50

ATODIAD 6 Crynodeb o'r manteision a'r anfanteision amgylcheddol a'r mesurau lliniaru 53

CYFEIRIADAU 62

RHESTR TERMAU A BYRFODDAU 64

RHAGAIR

Mae'r ddogfen hon yn nodi penderfyniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i roi caniatâd i'r trwyddedai, sef Magnox North Ltd (a elwid gynt yn Magnox Electric Ltd), gynnal prosiect digomisiynu yn atomfa Wylfa o dan Reoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu) 1999 (fel y'u diwygiwyd). Atomfa Wylfa yw'r wythfed orsaf ynni niwclear lle y rhoddwyd caniatâd i gynnal prosiect digomisiynu; y lleill yw Hinkley Point A, Bradwell, Calder Hall, Chapelcross, Sizewell A, Dungeness A ac Oldbury.

Mae'r broses o ystyried effeithiau posibl ar yr amgylchedd wedi cynnwys ymgynghori'n helaeth â'r cyhoedd, ac mae cyrff cenedlaethol a grwpiau lleol fel ei gilydd wedi dangos cryn dipyn o ddiddordeb. Credaf fod y broses wedi bod yn un agored a chynhwysfawr ac rwyf yn wirioneddol ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn y gwaith pwysig hwn, yn enwedig y rhai a gymerodd yr amser i anfon sylwadau ar y ddogfennaeth a gyflwynwyd gan y trwyddedai.

Mae pob un ohonom, ac yn enwedig y boblogaeth leol, yn awyddus i sicrhau y caiff effeithiau posibl ar yr amgylchedd eu rheoli'n effeithiol tra bydd Atomfa Wylfa yn cael ei digomisiynu. Rydym wedi gosod amodau ar y Caniatâd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r trwyddedai roi copi o'i gynllun rheoli amgylcheddol ac unrhyw fersiynau diwygiedig ohono a lunnir ar ôl hynny i ni. Mae'n bwysig nodi ei bod hefyd yn ofynnol i'r trwyddedai roi gwybod i'r cyhoedd yn rheolaidd am y cynnydd a wnaed drwy drefnu bod ei gynlluniau rheoli amgylcheddol ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Yn ein profiad ni mae hyn yn ffordd effeithiol o reoli effeithiau posibl ar yr amgylchedd.

Yn ystod ein proses gwneud penderfyniad rydym wedi ceisio bod yn agored a thryloyw. Bydd bod yn agored a thryloyw yn parhau i fod yn ffactor allweddol o ran rheoli effeithiau amgylcheddol drwy gydol y prosiect digomisiynu hwn a fydd yn para am ddegawdau. Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn o ddefnydd i chi ac y bydd yn rhoi dealltwriaeth glir i chi o'r rhesymau dros ein penderfyniad.

Mike Weightman

Prif Arolygydd Gosodiadau Niwclear EM

Y Gyfarwyddiaeth Niwclear

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Redgrave Court

Merton Road

Bootle

Glannau Mersi

L20 7HS

CRYNODEB

Mae Cyfarwyddeb y Cyngor Ewropeaidd 85/337/EEC,[1] fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 97/11/EC[2] a Chyfarwyddeb y Cyngor 2003/35/EC,[3] yn nodi fframwaith ar asesu effeithiau rhai prosiectau cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd a chyfranogiad y cyhoedd yn y broses o lunio rhai cynlluniau a phrosiectau sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Gweithredir y Gyfarwyddeb ym Mhrydain Fawr ar gyfer prosiectau digomisiynu adweithyddion niwclear gan Reoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu) 1999 (EIADR99)[4] fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu) (Diwygio) 2006 (EIADR06).[5]

Bwriad y Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau yw cynnwys y cyhoedd drwy ymgynghori â hwy yn y broses o ystyried effeithiau posibl prosiect Digomisiynu ar yr amgylchedd, a sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn un agored a thryloyw.

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r trwyddedai gynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol, llunio datganiad amgylcheddol sy'n crynhoi effeithiau amgylcheddol y prosiect, a gwneud cais i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) am ganiatâd i gynnal prosiect digomisiynu. Mae cam dewisol lle y gall y trwyddedai ofyn i HSE am ei farn ynglŷn â'r hyn y dylai'r datganiad amgylcheddol ei gynnwys (a elwir yn farn cyn gwneud cais).

Gofynnodd trwyddedai Atomfa Wylfa, sef Magnox North Ltd, am farn cyn gwneud cais a rhoddodd wybodaeth mewn adroddiad cwmpasu ym mis Awst 2007. Cynhaliodd HSE ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adroddiad cwmpasu a rhoddodd ei farn cyn gwneud cais ym mis Tachwedd 2007. Gwnaeth Magnox North Ltd gais i HSE am ganiatâd i gynnal prosiect digomisiynu a chyflwynodd ddatganiad amgylcheddol ym mis Awst 2008. Cynhaliodd HSE ymgynghoriad cyhoeddus ar y datganiad amgylcheddol. Cynhwysai'r ddau ymgynghoriad cyhoeddus tua 115 o unigolion mewn 91 o sefydliadau. Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y datganiad amgylcheddol, roedd yn bosibl i HSE wneud penderfyniad i roi caniatâd i gynnal prosiect digomisiynu yn atomfa Wylfa o dan y Rheoliadau ym mis Mawrth 2009, a gosododd amodau ar y Caniatâd.

Ystyriodd HSE ffactorau perthnasol wrth ddod i'w benderfyniad i roi caniatâd. Yn fyr, y ffactorau hyn oedd: digonolrwydd y wybodaeth a roddwyd yn y datganiad amgylcheddol; y casgliad y byddai'r manteision amgylcheddol yn drech o lawer na'r anfanteision; y rhagfynegiad na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol ar amgylcheddau gwledydd eraill; a'r gydnabyddiaeth y rhoddid sylw digonol i rai materion rywle arall, megis drwy gyfundrefnau rheoliadol eraill.

Mae'r amodau a osodwyd ar y Caniatâd yn ymwneud â mesurau lliniaru i atal, lleihau ac, os yw'n bosibl, wrthbwyso effeithiau amgylcheddol andwyol y prosiect. Yn fyr, mae'n rhaid i Magnox North Ltd lunio cynllun rheoli amgylcheddol sy'n nodi mesurau lliniaru, yn cyflwyno adroddiad ar y broses o'u gweithredu a'u heffeithiolrwydd, ac yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau a wnaed i'r cyfryw fesurau yng ngoleuni profiad. Mae'n rhaid i'r trwyddedai hysbysu HSE ymlaen llaw o unrhyw newid sylweddol a wneir i fesur lliniaru i reoli unrhyw effeithiau andwyol mawr ar yr amgylchedd. Mae'n rhaid i'r trwyddedai anfon copi o'r cynllun rheoli amgylcheddol ac unrhyw fersiynau diwygiedig ohono a lunnir ar ôl hynny i HSE a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd.

CYFLWYNIAD

1 Mae Cyfarwyddeb y Cyngor Ewropeaidd 85/337/EEC[1] fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 97/11/EC[2] a Chyfarwyddeb y Cyngor 2003/35/EC[3] yn nodi fframwaith ar asesu effeithiau rhai prosiectau cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd a chyfranogiad y cyhoedd yn y broses o lunio rhai cynlluniau a phrosiectau sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Fe'i gelwir yn Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA).

2 Gweithredir y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol ym Mhrydain Fawr ar gyfer prosiectau datblygu sy'n berthnasol i'r diwydiant niwclear gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999, fel y'u diwygiwyd[6] (TCPA(EIA)99) a Rheoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol (yr Alban) 1999, fel y'u diwygiwyd[7]. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys datblygiadau megis gosodiadau ar gyfer prosesu a storio gwastraff ymbelydrol. Yr awdurdodau cynllunio lleol perthnasol yw'r awdurdodau cymwys ar gyfer y Rheoliadau hyn.

3 Gweithredir y Gyfarwyddeb ym Mhrydain Fawr ar gyfer prosiectau digomisiynu adweithyddion niwclear gan Reoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu) 1999 (EIADR99)[4] fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu) (Diwygio) 2006 (EIADR06)[5]. HSE yw'r awdurdod cymwys ar gyfer EIADR.*

4 Ar 6 Ebrill diwygiwyd EIADR99 gan EIADR06. Diben y rheoliadau diwygio oedd cywiro dau wall argraffu a nodwyd gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol: sicrhau mwy o eglurder ac effeithlonrwydd gweinyddol; a gweithredu'r diwygiadau (perthnasol) a wnaed i gyfarwyddeb gychwynnol EIADR99 – Cyfarwyddeb y Cyngor Ewropeaidd 85/337/EEC,[1] fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 97/11/EC[2] a Chyfarwyddeb y Cyngor 2003/35/EC[3].

5 gwnaeth trwyddedai'r Wylfa,† Magnox North Ltd gais i HSE am ganiatâd i gynnal prosiect digomisiynu o dan EIADR ym mis Awst 2008.

6 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno adroddiad ar benderfyniad HSE i roi caniatâd i gynnal prosiect digomisiynu yn Atomfa Wylfa. Mae'n disgrifio cynnwys yr amodau a osodwyd ar y Caniatâd, y prif resymau ac ystyriaethau y mae'r penderfyniad wedi'i seilio arnynt, ac yn nodi'r prif fesurau y bydd Magnox North Ltd yn eu cymryd i reoli unrhyw effeithiau andwyol sylweddol a gaiff y prosiect ar yr amgylchedd.

---

* EIADR – Rheoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu) fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu) (Diwygio) 2006. Defnyddir y term hwn fel arfer yn nhestun yr adroddiad hwn.

† Mae'r Wylfa yn cyfeirio at Atomfa Wylfa a dyma'r term a ddefnyddir fel arfer yn nhestun yr adroddiad hwn.

CEFNDIR

Y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelwch niwclear

Deddf Gosodiadau Niwclear 1965

7 Prif ddiben y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 (Deddf HSW)[8] yw sicrhau, ymhlith pethau eraill, iechyd a diogelwch pobl yn y gwaith a diogelu eraill rhag y risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch sy'n gysylltiedig â gweithgareddau pobl yn y gwaith. Mae'r Ddeddf HSW yn gosod dyletswyddau ar gyflogwyr a chyflogeion, sefydlodd HSE, ac mae'n darparu ar gyfer rheoliadau iechyd a diogelwch. Mae'r Ddeddf HSW hefyd yn darparu ar gyfer penodi arolygwyr ac yn diffinio'r pwerau sydd ar gael iddynt. Ceir hefyd ddarpariaethau sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth ac â throseddau. O ran gosodiadau niwclear, mae'n ymgorffori'r rhannau hynny o Ddeddf Gosodiadau Niwclear 1965 (fel y'i diwygiwyd) (NIA65)[9] sy'n ymwneud â thrwyddedu fel darpariaethau statudol perthnasol.

8 NIA65 yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth a ddefnyddir i reoleiddio diogelwch gosodiadau niwclear. Fe'i diwygiwyd yn 1974 pan grëwyd HSE, i ddarparu, ymhlith pethau eraill, ar gyfer dynodi HSE fel yr awdurdod trwyddedu newydd. O dan NIA65, ni ellir defnyddio unrhyw safle i osod na gweithredu unrhyw adweithydd niwclear nac unrhyw osodiad niwclear rhagnodedig oni bai bod trwydded safle niwclear wedi'i rhoi i gorff corfforaethol gan HSE a bod y drwydded honno mewn grym ar y pryd.

9 O dan NIA65, gall HSE ar unrhyw adeg osod ar drwydded y cyfryw amodau ag yr ymddengys eu bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol er mwyn sicrhau diogelwch, neu o ran trafod, trin a gwaredu deunydd niwclear. Mae'r amodau hyn yn rhoi pwerau i HSE reoleiddio gweithgareddau'r trwyddedai yn uniongyrchol gan ddefnyddio offerynnau trwydded. At hynny, mae amodau'r drwydded sy'n gosod nodau i'w cyflawni yn ei gwneud yn ofynnol i bob trwyddedai ddatblygu trefniadau cydymffurfio sy'n diwallu ei anghenion busnes orau, cyhyd â'i fod yn dangos bod diogelwch yn cael ei reoli'n ddigonol.

Deddfwriaeth arall sy'n ymdrin â pheryglon niwclear a radiolegol

10 Mae nifer o ddeddfau eraill sy'n ymdrin â pheryglon niwclear a radiolegol yn berthnasol i safleoedd â thrwydded niwclear yn ogystal ag NIA65. Rheoleiddir diogelwch radiolegol mewn sefyllfaoedd arferol a sefyllfaoedd argyfwng o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 (IRR99)[10] a Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001 (REPPIR)[11] yn y drefn honno, ac fe'i gorfodir gan HSE. Rheoleiddir gweithgarwch gwaredu deunydd ymbelydrol, gan gynnwys gollyngiadau, o dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 (RSA93)[12] ac fe'i gorfodir gan Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru a Lloegr, ac Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) yn yr Alban.

Effeithiau digomisiynu ar wledydd eraill

11 Mae digomisiynu yn un o'r gweithgareddau y mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn mynnu bod llywodraethau Aelod-wladwriaethau yn cyflwyno cynnig ar ei gyfer o dan Erthygl 37 o Gytundeb Euratom. Mae'r cynnig yn nodi'r effeithiau y gallai strategaeth ddigomisiynu gosodiad niwclear penodol eu cael ar wledydd Aelod-wladwriaethau.

12 Mae EIADR yn cynnwys trefniadau ar gyfer ymgynghori â Gwladwriaethau eraill sydd wedi llofnodi'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd os yw'n debygol y bydd prosiect digomisiynu yn cael effeithiau amgylcheddol sylweddol ar y Gwladwriaethau hynny (gweler paragraff 24); Nid yw EIADR yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno cynnig i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Rheoleiddwyr ac eraill sy'n cydweithio

13 Mae rheoleiddwyr ac eraill yn cydweithio ar faterion sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall, ac yn arbennig, mae trefniadau gweinyddol rhwng HSE ac Asiantaeth yr Amgylchedd, SEPA a'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Wrth ystyried awdurdodiadau gollwng, er enghraifft, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a SEPA yn ymgynghori â HSE a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, ac mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn monitro bwyd tir a môr.

14 Mae rheoleiddwyr ac eraill hefyd yn cydweithio mewn meysydd eraill. Arweinir y gwaith o gyflwyno'r cynnig o dan Erthygl 37 o Gytundeb Euratom, er enghraifft, gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ar gyfer gosodiadau niwclear yng Nghymru a Lloegr, a Gweithrediaeth Gosodiadau Niwclear yr Alban yn yr Alban. Llunnir y cynnig o dan Erthygl 37 gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu SEPA, fel y bo'n briodol, mewn ymgynghoriad â HSE a'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r Awdurdod Digomisiynu Niwclear yn gyfrifol am unrhyw rwymedigaethau sy'n deillio o raglenni niwclear sifil y llywodraeth yn y gorffennol ac y dyfodol* ac mae HSE yn cysylltu â'r Awdurdod Digomisiynu Niwclear ar faterion sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall mewn perthynas â digomisiynu adweithyddion.

Y broses ddeddfwriaethol o dan EIADR

Cais am ganiatâd i gynnal prosiect digomisiynu

15 Bwriad y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol ac EIADR yw cynnwys y cyhoedd drwy ymgynghori â hwy yn y broses o ystyried effeithiau posibl prosiect digomisiynu ar yr amgylchedd, a sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn un agored a thryloyw.

16 Daeth EIADR99 i rym ym mis Tachwedd 1999. Ers hynny, mae'n rhaid i unrhyw drwyddedai sydd am ddechrau digomisiynu gorsaf ynni niwclear neu adweithydd niwclear arall (fel y'i diffinnir) wneud cais am ganiatâd i gynnal prosiect digomisiynu o dan EIADR, ynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol a llunio datganiad amgylcheddol sy'n crynhoi effeithiau amgylcheddol y prosiect.

17 Wrth gynllunio i gynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol a llunio datganiad amgylcheddol, mae cam dewisol lle y gall y trwyddedai ofyn i HSE roi ei farn ynglŷn â'r hyn y dylai'r datganiad amgylcheddol ei gynnwys (a elwir yn farn cyn gwneud cais). Yn y cyfryw achos, mae'n rhaid i'r trwyddedai ddarparu gwybodaeth (megis ar ffurf adroddiad cwmpasu) y bydd HSE yn seilio ei benderfyniad arni.

18 Wrth lunio ei farn, mae'n rhaid i HSE ymgynghori ac ystyried barn y cyrff ymgynghori a nodwyd yn EIADR, sef yr awdurdod cynllunio lleol, yr awdurdod priffyrdd lleol, unrhyw brif gynllun ar gyfer yr ardal (os nad yr awdurdod cynllunio lleol ydyw), ac amrywiaeth o sefydliadau ac asiantaethau

---

* Yn deillio o osodiadau a fu gynt yn eiddo i BNFL ac UKAEA.

amgylcheddol, sef: Natural England (y Countryside Agency ac English Nature) ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr; Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru; a Scottish Natural Heritage a SEPA yn yr Alban. Gall HSE hefyd ymgynghori ac ystyried barn sefydliadau eraill ac aelodau o'r cyhoedd.

19 Mae'n rhaid i'r datganiad amgylcheddol roi'r wybodaeth yn Atodlen 1 i EIADR y mae ei hangen yn rhesymol ac y gall y trwyddedai yn rhesymol ei chasglu. Yn fyr, dylai'r datganiad amgylcheddol gynnwys disgrifiad o'r canlynol: y prosiect (gan gynnwys agweddau megis nodweddion ffisegol ac allyriadau disgwyliedig); y prif ddewisiadau amgen eraill a astudiwyd gan y trwyddedai; agweddau ar yr amgylchedd y mae'n debyg yr effeithir arnynt gryn dipyn (megis dŵr ac aer); effeithiau tebygol ar yr amgylchedd (megis effeithiau byrdymor, tymor canolig a hirdymor ac effeithiau cronnol); a disgrifiad o'r mesurau a ragwelir i atal, lleihau a, lle y bo'n bosibl, wrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd. Mae'n rhaid i'r datganiad amgylcheddol hefyd gynnwys crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth a roddwyd.

Ymgynghoriad cyhoeddus ar ddatganiad amgylcheddol

20 Unwaith y bydd y trwyddedai wedi cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol, gwneud cais am ganiatâd a chyflwyno datganiad amgylcheddol, mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y datganiad amgylcheddol. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cyrff statudol a sefydliadau eraill y bydd HSE, o bosibl, am ymgynghori â hwy a phobl leol. Mae'n rhaid i'r trwyddedai gyhoeddi'r datganiad amgylcheddol mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal lle mae'r safle, sicrhau bod copïau o'r datganiad amgylcheddol ar gael i'r cyhoedd eu gweld mewn un neu ragor o leoliadau gerllaw'r safle, a gwahodd pobl i ysgrifennu i HSE i fynegi eu barn.

Ymgynghoriad cyhoeddus ar wybodaeth bellach

21 Os bydd HSE o'r farn bod angen gwybodaeth bellach cyn y gall wneud ei benderfyniad, gall ofyn am y cyfryw wybodaeth gan y trwyddedai. Yn y cyfryw achos, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y wybodaeth bellach o dan drefniadau tebyg i'r rhai a nodwyd uchod.

Tystiolaeth i wirio gwybodaeth yn y datganiad amgylcheddol

22 Gall HSE ofyn i'r trwyddedai gyflwyno tystiolaeth i wirio unrhyw wybodaeth yn y datganiad amgylcheddol. Nid yw tystiolaeth yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Newid neu ymestyn prosiect digomisiynu

23 Os bydd newid neu estyniad i brosiect digomisiynu adweithydd a all amharu'n sylweddol ar yr amgylchedd, mae'n rhaid i'r trwyddedai wneud cais i HSE am benderfyniad ynghylch a ddylid cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol o ran y newid neu'r estyniad. Ni ddylai'r trwyddedai ddechrau ar y broses o newid neu ymestyn y prosiect nac unrhyw ran arall o'r prosiect y gall HSE ei nodi na pharhau â'r cyfryw broses, hyd nes y gwneir penderfyniad. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol p'un a ddechreuodd y prosiect ar ôl neu cyn i EIADR ddod i rym ai peidio (hynny yw, p'un a roddwyd caniatâd ar gyfer y prosiect o dan EIADR, neu a ddechreuodd y prosiect cyn Tachwedd 1999 ac felly nid oedd angen caniatâd). Os penderfynir bod angen cynnal y cyfryw asesiad, mae'n

rhaid i'r trwyddedai wneud cais am ganiatâd a darparu datganiad amgylcheddol ar y prosiect i ategu'r cais. Mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y datganiad amgylcheddol hwnnw. Mae Rheoliad 13 o EIADR yn ymdrin â newidiadau neu estyniadau i brosiectau.

Effeithiau digomisiynu ar wledydd eraill

24 Mae EIADR yn cynnwys trefniadau ar gyfer ymgynghori â gwladwriaethau eraill sydd wedi llofnodi'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd os yw'n debygol y bydd prosiect digomisiynu yn cael effeithiau amgylcheddol andwyol sylweddol ar y Gwladwriaethau hynny. Cynhelir yr ymgynghoriad drwy gyfrwng yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n bennaf cyfrifol am y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol. Mae'r trefniadau hyn yn gymwys i brosiectau digomisiynu newydd a newidiadau ac estyniadau i brosiectau presennol y mae angen cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol mewn perthynas â hwy.

Rhoi caniatâd a gosod amodau

25 Ar ddiwedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y datganiad amgylcheddol gan gynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth bellach (os gofynnir amdani), mae'n rhaid i HSE ystyried barn ymgyngoreion ac, os yw'n briodol, ymatebion gan Wladwriaethau sydd wedi llofnodi'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, wrth wneud ei benderfyniad ynghylch p'un a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer prosiect digomisiynu o dan reoliad 8(3) o EIADR ai peidio. Os bydd HSE yn penderfynu rhoi caniatâd, gall HSE osod y cyfryw amodau ar y caniatâd ag yr ymddengys iddo eu bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol er mwyn cyfyngu ar yr effaith a gaiff y prosiect hwnnw ar yr amgylchedd o dan reoliad 8(4) o EIADR.

Tryloywder penderfyniad HSE ar gais

26 Ar ddiwedd y broses pan fydd HSE wedi gwneud ei benderfyniad ynghylch p'un a ddylid rhoi caniatâd i ddechrau prosiect digomisiynu newydd neu newid neu ymestyn prosiect presennol ai peidio, mae'n rhaid i HSE: hysbysu'r trwyddedai a'r Ysgrifennydd Gwladol o'r penderfyniad o dan reoliad 11(a); hysbysu'r cyhoedd drwy gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol o dan reoliad 11(b); a threfnu bod datganiad (adroddiad) ar gael i'r cyhoedd ei weld o dan reoliad 11(c) o EIADR. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys: cynnwys penderfyniad HSE ac, os rhoddir caniatâd, gynnwys unrhyw amodau a osodir ar y caniatâd hwnnw; y prif resymau ac ystyriaethau y mae'r penderfyniad wedi'i seilio arnynt; a disgrifiad, pan fo angen, o'r prif fesurau y bydd y trwyddedai yn eu cymryd i osgoi, lleihau ac os yw'n bosibl, wrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol sylweddol a gaiff y prosiect digomisiynu ar yr amgylchedd. O dan reoliad 11(c) o EIADR, mae'n rhaid i HSE roi gwybodaeth am yr hawl i herio dilysrwydd y penderfyniad a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud hynny. Proses yr adolygiad barnwrol yw'r dull a ddefnyddir i herio penderfyniadau a wneir gan HSE o dan EIADR.

CAIS I GYNNAL PROSIECT DIGOMISIYNU

Y broses ymgynghori

Cais am farn cyn gwneud cais

27 Ysgrifennodd Magnox North Ltd i HSE ym mis Awst 2007 i ofyn am farn cyn gwneud cais ynglŷn â'r hyn y dylai'r datganiad amgylcheddol ar gyfer Atomfa Wylfa ei gynnwys. Rhoddodd Magnox North Ltd wybodaeth ar ffurf 'Adroddiad Cwmpasu Barn Cyn Gwneud Cais'. Ymgynghorodd HSE â'r cyrff ymgynghori a sefydliadau eraill (gan gynnwys pob aelod o'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle) ar yr adroddiad hwnnw rhwng mis Medi a mis Hydref 2007. Anfonwyd barn cyn gwneud cais HSE i Magnox North Ltd ym mis Tachwedd 2007. Anfonwyd copi o'r farn cyn gwneud cais at yr ymgyngoreion ym mis Rhagfyr 2007, sef y cyrff ymgynghori a'r sefydliadau eraill yr ymgynghorodd HSE â hwy (gan gynnwys aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle a gyflwynodd sylwadau). Cyhoeddwyd y farn cyn gwneud cais ar wefan HSE ac mae copi wedi'i atodi fel Atodiad 1. Mae Ychwanegiad 2 i Atodiad 1 yn rhestru'r ymgyngoreion a ymatebodd i'r adroddiad cwmpasu ac a oedd yn fodlon i'w hymatebion fod ar gael i'r cyhoedd. Gellir archwilio copïau o 'Adroddiad Cwmpasu Cyn Gwneud Cais' y trwyddedai a barn cyn gwneud cais HSE ac ymatebion i'r ymgynghoriad (pan oedd yr ymgyngoreion yn fodlon i'w hymatebion fod ar gael i'r cyhoedd) mewn llyfrgelloedd cyhoeddus gerllaw'r safle a Chanolfan Wybodaeth a swyddfa ardal leol HSE, am flwyddyn o'r dyddiad y'u cyhoeddwyd (gweler Ychwanegiadau 6 a 7 i Atodiad 1).

Ymgynghori â'r cyhoedd ar y datganiad amgylcheddol

28 Gwnaeth Magnox North Ltd gais i HSE am ganiatâd i gynnal prosiect digomisiynu yn Atomfa Wylfa a chyflwynodd ddatganiad amgylcheddol ym mis Awst 2008. Ymgynghorodd HSE ar y datganiad amgylcheddol a rhestrir yr ymgyngoreion yn Atodiad 2. At hynny, cyhoeddodd Magnox North Ltd y datganiad amgylcheddol yn y wasg leol (*Daily Post*, y *North Wales Chronicle* a'r *Holyhead and Anglesey Mail*) i gynnwys pobl leol. Cyhoeddodd HSE yr ymgynghoriad ar y datganiad amgylcheddol ar ei wefan, yr oedd ganddo gyswllt uniongyrchol â gwefan Magnox North Ltd . Trefnodd Magnox North Ltd fod copïau ar gael i'r cyhoedd eu gweld mewn deg lleoliad gerllaw'r safle a sicrhaodd HSE fod copïau o'r datganiad amgylcheddol ar gael yn swyddfa HSE sydd agosaf at y safle – sef HSE, Uned 7 ac 8 Edison Court, Rhodfa Ellice, Parc Technoleg Wrecsam, Wrecsam, (Ychwanegiad 6 i Atodiad 1), llyfrgelloedd cyhoeddus gerllaw'r safle (Ychwanegiad 7 i Atodiad 1) a Chanolfan Wybodaeth HSE (Bootle, Ychwanegiad 6 i Atodiad 1).

29 Daeth cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus i ben ym mis Tachwedd 2008. Rhestrir yr ymgyngoreion a ymatebodd ac a oedd yn fodlon i'w sylwadau fod ar gael i'r cyhoedd yn Atodiad 3. Anfonwyd copïau o'r ymatebion hyn at y trwyddedai, a gellir eu harchwilio mewn llyfrgelloedd cyhoeddus gerllaw'r safle, a Chanolfan Wybodaeth a swyddfa ardal leol HSE (gweler Ychwanegiadau 6 a 7 i Atodiad 1).

Cais am dystiolaeth i wirio gwybodaeth yn y datganiad amgylcheddol

30 Roedd HSE o'r farn nad oedd angen rhagor o wybodaeth na thystiolaeth cyn y gallai wneud ei benderfyniad. Mae Atodiad 4 yn esbonio pam na ofynnwyd am wybodaeth bellach ar gyfer pynciau penodol.

31 Mae copïau o'r datganiad amgylcheddol ar gael i'r cyhoedd eu gweld mewn llyfrgelloedd cyhoeddus gerllaw'r safle, Canolfan Wybodaeth HSE a swyddfa ardal leol HSE (gweler Ychwanegiadau 6 a 7 at Atodiad 1) , am gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y rhoddwyd Caniatâd gan HSE (hynny yw, tan fis Mawrth 2010).

Sefydliadau a gymerodd ran yn y broses ymygynghori

32 Ystyriodd HSE y datganiad amgylcheddol ar gyfer Atomfa Wylfa. Cynhwysai hyn gynnal trafodaethau ag arolygydd safle HSE ar gyfer Atomfa Wylfa, rhanddeiliaid a hefyd ymgynghorwyr annibynnol yn gweithio dan gontract i HSE, yn ogystal ag ystyried sylwadau ysgrifenedig a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriadau cyhoeddus.

33 Adolygodd y sefydliadau a'r asiantaethau ag arbenigedd mewn materion cynllunio a materion amgylcheddol (y cyrff ymgynghori) y datganiad amgylcheddol fel y bo'n briodol, ac ystyriodd HSE eu canfyddiadau.

34 Ystyriodd HSE farn sefydliadau eraill yr ymgynghorodd â hwy ac a gyflwynodd sylwadau (gweler Atodiad 3). Mae gan y sefydliadau hyn arbenigedd, gwybodaeth neu ddiddordeb mewn materion niwclear, materion cynllunio a materion amgylcheddol.

Pynciau a godwyd gan ymgyngoreion o ran y datganiad amgylcheddol – trosolwg

35 Cyflwynodd rhai ymgyngoreion sylwadau ar bynciau a oedd yn berthnasol i'r broses ddigomisiynu ond nad oedd angen rhoi sylw manwl iddynt o reidrwydd o dan y broses asesu'r effaith amgylcheddol o dan EIADR. Er enghraifft, cwmpesir rhai pynciau gan ddeddfwriaeth gysylltiedig sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd lle y bydd cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno yn sicrhau'r effaith leiaf posibl ar yr amgylchedd. Roedd pynciau eraill yn destun polisi ehangach y llywodraeth ar ddigomisiynu. Nid ystyriwyd y pynciau hyn at ddibenion gwybodaeth bellach na thystiolaeth.

36 Cynhwysai rhai o'r ymatebion wybodaeth a oedd yn bwysig i sefydliadau eraill neu a oedd o ddiddordeb iddynt ac anfonwyd copïau o'r ymatebion hyn i'r sefydliadau hynny er gwybodaeth (pan oedd yr ymgyngorion yn fodlon i'w sylwadau fod ar gael i'r cyhoedd).

37 Nododd rhai ymatebion fod yr ymgyngoreion yn awyddus i barhau i gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch gwahanol agweddau ar y prosiect digomisiynu. Roedd y trwyddedai wedi ymrwymo i barhau â thrafodaethau gydag ymatebwyr ynghylch materion sy'n peri pryder penodol i ymatebwyr.

Pynciau nas ystyriwyd i gael tystiolaeth na gwybodaeth bellach – pynciau a godwyd gan ymgyngoreion

38 Cododd ymgyngoreion nifer o bynciau a oedd yn berthnasol i'r broses ddigomisiynu ond nad oedd angen rhoi sylw manwl iddynt o reidrwydd o dan y broses asesu'r effaith amgylcheddol o dan EIADR. At hynny cododd ymgyngoreion nifer o bynciau yr oedd HSE o'r farn bod y trwyddedai wedi ymdrin â hwy yn rhesymol yn y datganiad amgylcheddol, pan ystyrir y ffaith y bydd y prosiect ar waith am gyfnod hir ac unrhyw ansicrwydd sy'n deillio o hynny. O ganlyniad, penderfynodd HSE beidio ag ystyried y cyfryw bynciau at

ddibenion gwybodaeth bellach, a rhoddir trosolwg o'r prif bynciau a godwyd isod (gweler paragraffau 39 i 46).

39 Lleisiodd rhai ymgyngoreion y farn y dylid clirio'r safle ynghynt i osgoi gadael unrhyw olion i genedlaethau'r dyfodol. Cyflwynodd y datganiad amgylcheddol opsiynau ar gyfer digomisiynu a arweiniodd at wahanol amserlenni ar gyfer digomisiynu ac wedyn disgrifiodd y rhesymeg dros yr opsiwn a ddewiswyd. Byddai unrhyw newid yn yr opsiwn a ddewiswyd yn y dyfodol yn ddarostyngedig i reoliad 13 o EIADR.

40 Mynegodd rhai ymgyngoreion bryder ynghylch gwybodaeth am drin a gwaredu gwastraff (gan gynnwys gwastraff ymbelydrol). Rhoddodd y datganiad amgylcheddol wybodaeth am wastraff ac allyriadau ymbelydrol posibl (gan gynnwys ffigurau dangosol), ond nododd y bydd gweithgarwch gwaredu gan gynnwys gollyngiadau yn parhau i gael ei gyflawni o dan RSA93 a'i reoleiddio gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

41 Roedd y trefniadau ar gyfer diogelwch yn ystod y prosiect digomisiynu yn destun pryder i rai ymgyngoreion. Swyddfa Diogelwch Niwclear Sifil HSE sy'n gyfrifol am reoleiddio diogelwch. Mae NIA65 yn ymdrin â digwyddiadau a damweiniau posibl eraill a threfniadau argyfwng y trwyddedai.

42 Mynegodd rhai ymgyngoreion bryder ynghylch yr effeithiau economaidd-gymdeithasol a ddisgwylir o ganlyniad i gau'r orsaf ynni. Er mai prin yw'r cyfleoedd i Magnox North Ltd osgoi neu leihau'r effaith andwyol sylweddol ar yr economi leol, mae'r datganiad amgylcheddol yn nodi mesurau lliniaru i leihau'r effaith cymaint â phosibl gan gynnwys cynorthwyo cyflogeion yr effeithwyd arnynt ar y safle ac annog contractwyr i ddefnyddio gweithwyr, cyfarpar, deunyddiau a gwasanaethau o'r ardal leol hyd y gellir.

43 O ran ecoleg, roedd rhai ymgyngoreion yn pryderu ynghylch tarfu ar adar sy'n bridio, sef nythfeydd gwylanod cefnddu a gwylanod y penwaig. Daeth y datganiad amgylcheddol i'r casgliad, ar ôl rhoi'r mesurau lliniaru arfaethedig ar waith, nad oedd unrhyw effeithiau sylweddol ar wylanod nac adar sy'n bridio, a châi unrhyw newid yn y mesurau lliniaru ei nodi yn y cynllun rheoli amgylcheddol.

44 Lleisiodd rhai ymgyngoreion eu pryder ynghylch llygredd golau gyda'r nos. Daeth y datganiad amgylcheddol i'r casgliad, am y caiff goleuadau cyfeiriol eu defnyddio ar gyfer unrhyw oleuadau ychwanegol dros dro ar y safle, na fydd unrhyw effaith sylweddol ar olygfeydd gyda'r nos tra bydd y prosiect digomisiynu ar waith o gymharu â goleuadau gweithredol.

45 Roedd HSE o'r farn bod y trwyddedai wedi ymdrin yn ddigonol â'r prif bynciau eraill a godwyd gan yr ymgyngoreion yn y datganiad amgylcheddol, neu y caent eu rheoleiddio a'u gorfodi yn ddigonol o dan ddeddfwriaeth gynllunio neu ddeddfwriaeth gysylltiedig yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, fel na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylcheddol.

46 Rhestrir crynodeb o'r pynciau allweddol a godwyd gan ymgyngoreion a oedd yn berthnasol i'r broses ddigomisiynu ond nas ystyriwyd at ddibenion tystiolaeth na gwybodaeth bellach yn Atodiad 4 a rhoddir esboniad byr pam y daeth HSE i'r penderfyniad hwn.

RHESYMAU DROS ROI CANIATÂD

Penderfyniad i roi caniatâd

47 Rhoddodd HSE ganiatâd i gynnal prosiect digomisiynu yn Atomfa Wylfa o dan EIADR ym mis Mawrth 2009, a gosododd amodau ar y Caniatâd. Atodir copi o'r Caniatâd a'r amodau fel Atodiad 5.

48 Ystyriodd HSE ffactorau perthnasol wrth ddod i'w benderfyniad i roi caniatâd. Yn fyr, y ffactorau hyn oedd:

- barn HSE am ddigonolrwydd y wybodaeth a roddwyd yn y datganiad amgylcheddol;
- casgliad HSE y byddai'r manteision amgylcheddol yn drech o lawer na'r anfanteision;
- Y ffaith i HSE dderbyn penderfyniad y trwyddedai na fyddai effeithiau'r prosiect a aseswyd yn debygol o gael effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd mewn gwladwriaeth arall sydd wedi llofnodi'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd;
- y ffaith bod HSE yn sylweddoli yr ymdrinnid â rhai materion yn ddigonol rywle arall: Y materion hyn oedd: materion cynllunio gwlad a thref; cydymffurfio â deddfwriaeth yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd; ac amserlenni digomisiynu sy'n ymwneud â pholisi'r llywodraeth.

Gwybodaeth a roddwyd

49 Ym marn HSE, rhoddodd y datganiad amgylcheddol a'r dystiolaeth yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen yn rhesymol ac y gallai Magnox North Ltd yn rhesymol ei chasglu. Rhoddwyd cryn sylw i'r materion hynny sydd o bwys ar ddechrau'r prosiect, tra ymdriniwyd yn fras, o reidrwydd, â materion sy'n berthnasol i gamau terfynol y prosiect, ac mae hyn yn rhesymol o gofio pa mor hir y bydd y prosiect ar waith.

50 Disgrifiodd y datganiad amgylcheddol ymagwedd hyblyg tuag at ddigomisiynu pan fo angen, drwy roi gwybodaeth am amrywiaeth o ddulliau gweithredu posibl ar gyfer mater penodol. Rhoddodd hyn hyder nad oedd Magnox North Ltd wedi disytyrru'n ddiangen, mor gynnar â hyn, ddulliau gweithredu priodol posibl ar gyfer cyflawni'r broses ddigomisiynu. Yn y cyfryw achosion, defnyddiodd Magnox North Ltd yr effeithiau gwaethaf posibl mewn asesiadau, gan roi sicrwydd, pa ddull bynnag a fabwysiedir, fod unrhyw effeithiau posibl yn debygol o fod yn llai na'r rhai a nodwyd gan yr asesiad.

Manteision ac anfanteision amgylcheddol ac ystyried mesurau i reoli effeithiau amgylcheddol andwyol (mesurau lliniaru)

51 Ym marn HSE, dangosodd y datganiad amgylcheddol bod y manteision amgylcheddol disgwyliedig at ei gilydd yn drech nag unrhyw effeithiau andwyol a gâi'r prosiect ar yr amgylchedd. Crynhodd y datganiad amgylcheddol holl effeithiau amgylcheddol y prosiect digomisiynu, gan ddisgrifio eu maint yn nhermau effeithiau mawr, canolig, bach neu ddibwys, a'u pwysigrwydd yn nhermau sylweddol allweddol, sylweddol neu ddim yn sylweddol. Crynhodd y crynodeb annhechnegol o'r datganiad amgylcheddol yr effeithiau sylweddol allweddol.

52 Roedd wyth maes lle y nodwyd effeithiau andwyol sylweddol, sef ansawdd aer a llwch, ecoleg, tirwedd a gweledol, daeareg hydroddaeareg a phriddoedd, sŵn a dirgrynu, ffactorau economaidd-gymdeithasol, dŵr wyneb, a thraffig a chludiant. Amrywiai'r effeithiau hyn o ran eu hyd a'u pwysigrwydd (gweler Atodiad 6). Nodwyd mesurau lliniaru yn yr asesiad; mae'r mesurau lliniaru hyn yn lleihau nifer y meysydd ag effeithiau sylweddol o wyth i bedwar. O fewn y meysydd hyn lleiheir pwysigrwydd yr effeithiau hyn drwy weithredu mesurau lliniaru (am ragor o fanylion gweler Atodiad 6).

53 Roedd tri maes lle y nodwyd effeithiau andwyol sylweddol allweddol posibl, effeithiau sylweddol allweddol dros dro neu effeithiau andwyol sylweddol allweddol, sef daeareg, hydroddaeareg a phriddoedd; tirwedd a gweledol; a thraffig a chludiant. Ymwnâi'r materion yn gysylltiedig â daeareg, hydroleg a phriddoedd â newidiadau yn ansawdd y pridd a/neu ansawdd dŵr daear a gafodd eu halogi'n anfwriadol o ganlyniad i storio, trin neu ddefnyddio priddoedd/deunyddiau halogedig; symud neu wasgaru priddoedd sydd eisoes wedi'u halogi yn anfwriadol neu'n ddireolaeth; adfer tir halogedig (gwneud y gwaith) os bydd angen; newidiadau yn llif dŵr daear o ganlyniad i symud halogiad sy'n bodoli eisoes; a chreu llwybrau halogiad a gorlifoedd neu ollyngiadau halogiad newydd. Ymwnâi mater y dirwedd a'r mater gweledol â goleuadau ychwanegol achlysurol gyda'r nos a gwaith i addasu adeilad yr adweithydd. Ymwnâi mater traffig a chludiant ag effaith dros dro wrth baratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw a chlirio'r safle yn derfynol. Mae Magnox North Ltd wedi ymrwymo i weithredu cynllun teithio fel mesur lliniaru; bwriedir i'r cynllun hwn helpu i leihau nifer y teithiau a grëir gan yr orsaf ynni drwy gydol y prosiect digomisiynu.

54 Dangosodd pum maes pwnc effeithiau cadarnhaol hirdymor o wahanol faint, sef tirwedd a gweledol; sŵn a dirgrynu; ecoleg; daeareg hydroddaeareg a phriddoedd; a thraffig a chludiant.

55 Nodwyd effaith economaidd-gymdeithasol, cadarnhaol, byrdymor wrth i'r safle gael ei glirio ar ddiwedd y prosiect digomisiynu sy'n ymwneud â'r swyddi a grëir.

56 Rhoddir manylion pellach am effeithiau amgylcheddol a mesurau i reoli effeithiau amgylcheddol yn Atodiad 6.

Effeithiau ar wledydd eraill

57 Yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd yn y datganiad amgylcheddol, mae HSE o'r farn na fyddai effeithiau'r prosiect a aseswyd yn debygol o gael unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd mewn gwladwriaeth arall sydd wedi llofnodi'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Materion yr ymdrinnir â hwy rywle arall – cynllunio gwlad a thref

58 Os bydd strwythurau newydd i'w hadeiladu neu os bydd angen newid adeiladau yn sylweddol, bydd angen cael caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiadau hyn. Ceir y caniatâd hwn gan yr awdurdod cynllunio lleol, hy ymhlith y prosiectau y bydd angen cael caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn Atomfa Wylfa mae adeiladu adeilad storio gwastraff ymbelydrol ac adnewyddu cladin adeiladau'r adweithyddion. Os bydd angen, caiff y rhain eu rheoleiddio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (TCPA90)[13] a'u gorfodi gan yr awdurdodau cynllunio lleol perthnasol. Ymgynghorir â HSE ar

unrhyw geisiadau cysylltiedig am ganiatâd cynllunio gan awdurdod cynllunio lleol. At hynny mae'n bosibl y bydd angen cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol o dan TCPA(EIA)99 ar gyfer gosodiadau dros dro i brosesu a/neu storio gwastraff ymbelydrol.[6] Yn y cyfryw achosion pan fydd angen cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol ymgynghorir â'r cyhoedd hefyd cyn y gwneir unrhyw benderfyniad.

59 Maes arall lle y gall fod angen cael caniatâd yw ar gyfer unrhyw ddeunyddiau mewnlenwi a ddefnyddir ac y mae'n rhaid dod â hwy i'r safle. Rheoleiddir hyn o dan TCPA90 a deddfwriaeth gysylltiedig berthnasol ac fe'i gorfodir gan yr awdurdod cynllunio lleol perthnasolr.

60 Mae'n dilyn, felly, y gall Magnox North Ltd ddechrau gweithio ar bob agwedd ar y prosiect digomisiynu ar yr amod nas oes angen cael caniatâd ychwanegol ar gyfer y gwaith o dan ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref.

61 Mae HSE ac awdurdodau cynllunio lleol wedi cynnal trafodaethau ynghylch y rhyngwyneb rhwng EIADR, NIA65, TCPA90 a deddfwriaeth cynllunio gwlad a thref arall a bydd yn parhau i wneud hynny, yn ôl yr angen.

Materion yr ymdrinnir â hwy rywle arall – deddfwriaeth yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd

62 Disgrifiodd y datganiad amgylcheddol gysylltiadau â deddfwriaeth gysylltiedig yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd. Cynhwysai hyn ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu: iechyd a diogelwch galwedigaethol; diogelwch niwclear; halogiad a gollyngiadau ymbelydrol; a thrin halogiad a gwastraff nad yw'n ymbelydrol (sy'n cynnwys deunyddiau megis asbestos).

63 Mae HSE yn fodlon y sicrheir rheolaeth ar y cyfryw faterion yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd ac y parheir i'w sicrhau drwy weithgarwch rheoleiddio a thrwy orfodi deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Dylai cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol sicrhau yr amherid cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd. Gorfodir y rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth gan HSE ac Asiantaeth yr Amgylchedd, ac mae trefniadau gweinyddol ar waith rhwng HSE ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer cydweithio ar faterion sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall (gweler paragraffau 13 a 14).

64 Mae'n dilyn, felly, y gall Magnox North Ltd ddechrau gweithio ar bob agwedd ar y prosiect digomisiynu ar yr amod nas oes angen cael caniatâd ychwanegol ar gyfer y gwaith o dan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd.

65 Mae HSE ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynnal trafodaethau ynghylch y rhyngwyneb rhwng EIADR, NIA65, TCPA93 a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, yn ôl yr angen.

Materion yr ymdrinnir â hwy rywle arall – amserlenni digomisiynu: Y cysylltiad rhwng polisi'r llywodraeth, strategaeth ddigomisiynu a mentrau Ewropeaidd ac EIADR a datganiad amgylcheddol Atomfa Wylfa

Polisi'r llywodraeth

66 Mae'r polisi presennol ar ddigomisiynu[14,15,16] sy'n cwmpasu holl gyfleusterau (presennol a newydd) diwydiant niwclear y DU, yn nodi:

‘Dylid cyflawni gweithrediadau digomisiynu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol fel y darperir ar ei gyfer yn strategaeth a chynllun y gweithredwr perthnasol.

Mae hyn yn cynnwys gorsafoedd ynni, adweithyddion eraill, cyfleusterau ymchwil, gweithfeydd cynhyrchu ac ailbrosesu tanwydd a labordai ar safleoedd a drwyddedwyd o dan NIA65. Disgwylir i bob gweithredwr lunio a chynnal strategaeth ddigomisiynu a chynlluniau digomisiynu ar gyfer ei safleoedd. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'r strategaethau a'r cynlluniau hynny ystyried barn rhanddeiliaid (gan gynnwys awdurdodau lleol perthnasol, grwpiau cyhoeddus a grwpiau rhanddeiliaid). Dylai strategaethau gynnwys cynllun digomisiynu safle cynhwysfawr ar gyfer cyflawni'r broses ddigomisiynu'n ddiogel gan roi sylw priodol i ddiogelwch a diogelu'r amgylchedd. Dylai pob cynllun ystyried unrhyw ddefnydd arfaethedig o'r safle dan sylw yn y dyfodol. Mae'r Llywodraeth hefyd yn disgwyl y bydd gweithredwyr fel arfer yn dechrau mireinio strategaethau a chynllunio, mewn ymgynghoriad â'r rheoleiddwyr a rhanddeiliaid, cyn yr adeg y maent yn bwriadu cau'r cyfleusterau (neu'r cyfleuster cyntaf fel y bo'n briodol).

67 O dan Ddeddf Ynni 2004[17] sefydlwyd yr Awdurdod Digomisiynu Niwclear (NDA) i fod yn gyfrifol am sicrhau bod safleoedd niwclear sifil yn cael eu digomisiynu a'u glanhau.

Adolygu'r strategaeth ddigomisiynu

68 Mae angen i ddatganiad amgylcheddol o dan EIADR ddisgrifio'r opsiynau ar gyfer digomisiynu, gan gynnwys amserlenni digomisiynu.

69 Yn ei gynllun busnes drafft ar gyfer 2008/11[18] nododd yr Awdurdod Digomisiynu Niwclear ei fod yn bwriadu sefydlu methodoleg i helpu i bennu amserlenni digomisiynu gan ystyried y nifer fawr o ffactorau sy'n dylanwadu ar amserlenni digomisiynu.

Mentrau'r Comisiwn Ewropeaidd

70 Daeth rheoliadau sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/42/EC[19] ar asesu effeithiau rhai cynlluniau a rhaglenni ar yr amgylchedd (a elwir yn Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)) i rym ar 21 Gorffennaf 2004. Mae dibenion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol a'r Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol yn gysylltiedig am fod y ddwy yn ymdrin ag asesiadau amgylcheddol, ond mae'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn ymdrin â chynlluniau a rhaglenni strategol tra bod y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol yn ymdrin â phrosiectau penodol (megis o dan EIADR).

Wylfa

71 Disgrifiodd y datganiad amgylcheddol opsiynau ar gyfer digomisiynu, gan gynnwys strategaeth y storfa ddiogel, opsiynau ar gyfer amserlenni digomisiynu ac ailddefnyddio'r tir yn y dyfodol. Ystyried amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol (gan gynnwys gwastraff ymbelydrol a gwastraff nad yw'n ymbelydrol, lleihau gwastraff i'r eithaf, sŵn a dirgrynu, cludiant, ecoleg, ansawdd dŵr wyneb, effeithiau economaidd-gymdeithasol a gweledol) yn ystod y broses i ddatblygu'r strategaeth ddigomisiynu. Ni newidiodd yr ystyriaeth a roddwyd i'r effeithiau amgylcheddol ganlyniad terfynol y broses o ddewis y strategaeth.

72 Nododd y datganiad amgylcheddol y dylai'r cyfnod paratoi ar gyfer gofalu a chynnal a chadw bara tua deng mlynedd. Fe'i dilynir gan y cyfnod gofalu a chynnal a chadw pan gedwir y safle mewn cyflwr segur ar y cyfan ac wedyn cyfnod clirio'r safle yn derfynol a fydd yn para tua wyth mlynedd, a fyddai'n dechrau 85-105 o flynyddoedd ar ôl i'r safle orffen cynhyrchu ynni. Mae'n bosibl y gallai'r amserlen ddigomisiynu newid yn y dyfodol, er enghraifft, cyfnod gofalu a chynnal a chadw byrrach.

73 Fodd bynnag, dylid nodi, os bydd newid yn yr amserlen ddigomisiynu yn arwain at newid yn y prosiect a all amharu'n sylweddol ar yr amgylchedd, y bydd yn rhaid i Magnox North Ltd wneud cais i HSE am benderfyniad ynghylch a ddylid cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer y prosiect. Os felly, byddai'n rhaid i Magnox North Ltd wneud cais am ganiatâd a llunio datganiad amgylcheddol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

AMODAU A OSODWYD AR Y CANIATÂD

Cynnwys yr amodau

74 Mae HSE wedi gosod amodau ar y Caniatâd. Atodir copi o'r Caniatâd a'r amodau yn Atodiad 5. Yn fyr, mae'n rhaid i Magnox North Ltd lunio a gweithredu cynllun rheoli amgylcheddol sy'n nodi mesurau lliniaru, yn disgrifio'r broses o'u gweithredu a'u heffeithiolrwydd, ac unrhyw newidiadau a wnaed yng ngoleuni profiad. Mae'n rhaid anfon copi o'r cynllun rheoli amgylcheddol ac unrhyw fersiynau diwygiedig ohono a lunnir ar ôl hynny i HSE a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd. At hynny mae'n rhaid hysbysu HSE ymlaen llaw o unrhyw newidiadau pwysig a wneir i fesurau lliniaru i atal, lleihau a, lle y bo'n bosibl, wrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd.

75 Mae Rheoliad 16 o EIADR yn rhoi pwerau digonol o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i HSE orfodi'r amodau hyn yn effeithiol.

76 Bydd y trwyddedai yn sicrhau bod copi o'r cynllun rheoli amgylcheddol ar gael i'r cyhoedd ei weld mewn lleoliadau cyhoeddus gerllaw'r safle.

Rhesymau dros yr amodau

77 Er mwyn rheoli effeithiau amgylcheddol yn llwyddiannus, bydd angen mesurau lliniaru mewn nifer o feysydd. Dyna pam mae HSE wedi gosod amodau ar y Caniatâd sy'n ymdrin â mesurau lliniaru.

Amod 1

78 Mae Amod 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Magnox North Ltd ddechrau'r prosiect o fewn pum mlynedd i'r dyddiad y rhoddwyd y caniatâd. Mae'r prosiect yn cynnwys gwaith datgymalu neu ddigomisiynu ar yr orsaf ynni y mae a wnelo EIADR ag ef.

Amod 2

79 Mae Amod 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Magnox North Ltd lunio cynllun rheoli amgylcheddol i ddisgrifio mesurau lliniaru sydd eu hangen i atal, lleihau a, lle y bo'n bosibl, wrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd. Mae'n rhaid gweithredu'r cynllun a dim ond yn unol â'r cynllun y gellir gwneud gwaith datgymalu neu ddigomisiynu.

Amod 3

80 Mae Amod 3 yn ei gwneud yn ofynnol i lunio'r cynllun rheoli amgylcheddol o fewn 90 o ddiwrnodau i'r dyddiad y rhoddwyd y Caniatâd. Mae'n rhaid i'r cynllun gynnwys y mesurau lliniaru ar gyfer y gweithgareddau gwaith y bwriedir eu cyflawni. Yn y bôn mae tri math o weithgareddau gwaith:

- gweithgareddau gwaith â mesurau lliniaru cysylltiedig (fel y nodir yn y datganiad amgylcheddol);
- gweithgareddau gwaith i'w cyflawni yn y dyfodol y mae amrywiaeth o opsiynau ar gyfer eu gweithredu â mesurau lliniaru cysylltiedig;
- gweithgareddau gwaith i'w cyflawni yn y dyfodol nas aseswyd eto i weld a oes angen mesurau lliniaru oherwydd ansicrwydd ynghylch y dyfodol.

81 Mae gan y rhan fwyaf o'r gweithgareddau gwaith fesurau lliniaru cysylltiedig yn y datganiad amgylcheddol. Mae Amod 3a yn ei gwneud yn ofynnol i restru'r mesurau lliniaru hyn yn y cynllun rheoli amgylcheddol.

82 Mae gan rai gweithgareddau gwaith sydd i'w cyflawni yn y dyfodol amrywiaeth o opsiynau ar gyfer eu gweithredu. Yn y cyfryw achosion, mae gan yr opsiynau fesurau lliniaru cysylltiedig yn y datganiad amgylcheddol, a phan ddewisir yr opsiwn yn y dyfodol, dylid gweithredu'r mesurau lliniaru priodol. Mae Amod 3b yn ei gwneud yn ofynnol i restru'r gweithgareddau gwaith hyn a'r opsiynau ar gyfer eu gweithredu yn y cynllun rheoli amgylcheddol.

83 Dim ond yn ystod camau olaf y prosiect digomisiynu y gellir asesu rhai gweithgareddau gwaith sydd i'w cyflawni yn y dyfodol i weld a oes angen mesurau lliniaru i reoli effeithiau amgylcheddol, megis effeithiau ar fywyd gwyllt tra bydd adeiladau dros dro yn cael eu codi i hwyluso'r gwaith o glirio'r safle. Yn y cyfryw achosion, byddai mesurau lliniaru i ddiogelu bywyd gwyllt yn dibynnu ar y bywyd gwyllt sy'n bresennol yr adeg honno. Mae Amod 3c yn ei gwneud yn ofynnol i restru'r gweithgareddau gwaith hyn yn y datganiad amgylcheddol. Er na ellir asesu'r angen am fesurau lliniaru ar gyfer y cyfryw weithgareddau gwaith eto, mae'n debyg y byddai unrhyw fesurau yn debyg i'r rhai ar gyfer gweithgareddau gwaith tebyg yn gynharach yn ystod y prosiect.

Amod 4

84 Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, mae amod 4 yn ei gwneud yn ofynnol i ddiweddaru'r cynllun rheoli amgylcheddol. Pan fydd opsiynau ar gyfer gweithredu gweithgareddau gwaith wedi'u dewis o restr o weithgareddau gwaith ac opsiynau wedi'u crynhoi o dan amod 3b, mae amod 4a yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys yr opsiynau hyn a ddewiswyd a'r mesurau lliniaru cysylltiedig yn y cynllun, ynghyd â'r rhesymau dros eu dewis.

85 Pan fydd yr angen am fesurau lliniaru i reoli effeithiau amgylcheddol yn ystod camau olaf y prosiect digomisiynu wedi'i asesu o'r rhestr o weithgareddau gwaith a luniwyd o dan amod 3c, mae amod 4b yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys y mesurau lliniaru hyn yn y cynllun rheoli amgylcheddol, ynghyd â'r rhesymau dros eu dewis.

86 Mae amod 4c yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun rheoli amgylcheddol ddisgrifio effeithiolrwydd unrhyw fesurau lliniaru a gymerwyd dros amser. Mae amod 4ch yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun ddisgrifio newidiadau sylweddol

a wneir i fesurau lliniaru yng ngoleuni profiad, ynghyd â'r rhesymau dros y newidiadau hynny. Felly, bydd y cynllun yn ddogfen fyw a gaiff ei hadolygu a'i diwygio yn rheolaidd drwy gydol y prosiect digomisiynu.

Amod 5

87 Mae Amod 5 yn ei gwneud yn ofynnol i Magnox North Ltd anfon y cynllun rheoli amgylcheddol ac unrhyw fersiynau diwygiedig ohono a lunnir ar ôl hynny i HSE yn rheolaidd. Dylid anfon y cynllun i HSE yn flynyddol ar y dyddiad y daeth y cyfnod o 90 o ddiwrnodau i ben, neu'r cyfryw gyfnod hwy o amser ag y gall HSE gytuno arno. Yn rhan gyntaf y cyfnod gwaith mae'n debyg y dilynir yr amserlen hon, ond wrth i'r trwyddedai fagu profiad a dangos effeithiolrwydd y mesurau lliniaru, mae'n ddigon posibl y bydd y cyfnod o amser rhwng dogfennau dilynol yn hwy. Yn ystod y cyfnod gofalu a chynnal a chadw, mae'n debyg y bydd y cyfnod hwn yn llawer hwy, pob pump i ddeng mlynedd efallai. Mae'n debyg y bydd yr amserlenni ar gyfer cyfnod clirio'r safle yn debyg i'r rhai ar gyfer y cyfnod gwaith.

88 Mae Amod 5 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Magnox North Ltd sicrhau bod copïau o'r cynllun rheoli amgylcheddol ar gael i'r cyhoedd er mwyn rhoi gwybod i'r boblogaeth leol yn rheolaidd am y cynnydd a wnaed o ran unrhyw fesurau lliniaru.

Amod 6

89 Mae Amod 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Magnox North Ltd hysbysu HSE ymlaen llaw o unrhyw newidiadau pwysig i fesurau lliniaru i reoli effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd. Gallai fod angen gwneud newidiadau sylweddol i fesurau lliniaru i reoli effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd yn y dyfodol.

Atodiad 1 Barn cyn gwneud cais

RHEOLIADAU ADWEITHYDDION NIWCLEAR (ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL AR GYFER DIGOMISIYNU) 1999 (FEL Y'U DIWYGIWYD)

BARN CYN GWNEUD CAIS YR AWDURDOD GWEITHREDOL AR GYNNWYS Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL AR GYFER ATOMFA WYLFA

Mater

1) I nodi barn cyn gwneud cais yr Awdurdod Gweithredol ar gynnwys y datganiad amgylcheddol ar gyfer Atomfa'r Wylfa o dan Reoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu) 1999 (EIADR99), fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu) (Diwygio) 2006 (EIADR06), y dylid cyfeirio atynt fel EIADR.

Cefndir

2) Mae EIADR yn gweithredu'r gofyniad i gynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer digomisiynu gorsafoedd ynni niwclear ac adweithyddion niwclear sy'n deillio o Gyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC (fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 97/11/EC a Chyfarwyddeb y Cyngor 2003/35EC) ar asesu effeithiau rhai prosiectau cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd ac ar gyfranogiad y cyhoedd o ran y rhain.

3) Cyn y gellir digomisiynu neu ddatgymalu adweithydd niwclear neu orsaf ynni, mae'n rhaid i drwyddedai wneud cais i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE, y cyfeirir ato fel yr Awdurdod Gweithredol yn EIADR) am ganiatâd, gwneud asesiad o'r effaith amgylcheddol a darparu datganiad amgylcheddol. Cyfeirir at y wybodaeth y mae angen ei chynnwys mewn datganiad amgylcheddol yn Atodlen 1 i EIADR ac fe'i nodir yn yr atodlen honno.

4) Mae trwyddedai'r safle niwclear, Magnox Electric Ltd, wedi gofyn i HSE roi barn cyn gwneud cais o dan reoliad 6 EIADR ar gynnwys y datganiad amgylcheddol ar gyfer Atomfa Wylfa. Gall y trwyddedai ddewis gwneud hyn cyn iddo ddarparu datganiad amgylcheddol o dan reoliad 5 EIADR.

5) Mae'r trwyddedai wedi darparu adroddiad cwmpasu i lywio'r farn cyn gwneud cais yn dwyn y teitl "Atomfa'r Wylfa - Adroddiad Cwmpasu Barn Cyn Gwneud Cais" (y cyfeirir ato fel 'yr adroddiad cwmpasu' drwy gydol y farn hon). Mae'r adroddiad cwmpasu yn nodi amrywiaeth o faterion i'w hystyried yng nghyd-destun cwmpas arfaethedig y datganiad amgylcheddol.

6) Mae'r weithdrefn ar gyfer barn cyn gwneud cais yn debyg i'r weithdrefn ar gyfer y farn gwmpasu a ddarperir gan yr awdurdod lleol o dan reoliad 10 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 (fel y'i diwygiwyd).

7) Dylai'r datganiad amgylcheddol ar gyfer Atomfa'r Wylfa, pan gaiff ei gyflwyno i HSE, roi sylw i'r cyfryw wybodaeth ag a nodir yn Atodlen 1 i EIADR y mae ei hangen yn rhesymol i asesu effeithiau amgylcheddol y prosiect arfaethedig. Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r datganiad amgylcheddol roi sylw i'r holl wybodaeth a nodir yn Atodlen 1 i Ran II i EIADR. Os bydd HSE o'r farn, ar ôl derbyn y wybodaeth, nad yw'r cyfryw wybodaeth yn ddigonol, mae EIADR yn rhoi i HSE y pŵer i'w gwneud yn ofynnol bod y trwyddedai yn darparu tystiolaeth neu ragor o wybodaeth. Mae HSE yn cydnabod, o fewn yr adroddiad cwmpasu, fod y trwyddedai wedi nodi ei fwriad i roi sylw i'r wybodaeth a fynnir gan Atodlen 1 i EIADR.

8) Mae'r trwyddedai wedi gofyn i HSE gyflwyno sylwadau ar y fethodoleg asesu arfaethedig. Pan fo hynny'n briodol, mae'r cyfryw sylwadau, yn ymwneud ag asesu pynciau penodol, wedi'u cynnwys yn y farn hon.

Ymgynghori

9) Mae HSE wedi ymgynghori â'r cyrff ymgynghori a nodir yn rheoliad 2 o EIADR ynghylch yr adroddiad cwmpasu a ddarparwyd gan y trwyddedai. Ar ben hynny, mae HSE wedi ymgynghori â chyrff eraill yr ystyriai eu bod yn briodol. Gofynnodd HSE i ymgyngoreion â gwybodaeth a phrofiad lleol manwl a leolir gerllaw'r safle gynnwys materion sy'n peri pryder i bobl leol. Ceir y rhestr o ymgyngoreion yn Atodiad 1. Ymatebodd pob ymgynghorai statudol a rhai ymgyngoreion anstatudol i'r broses ymgynghori. Ceir y rhestr o ymgyngoreion yn Atodiad 2.

10) At ei gilydd roedd yr ymgyngoreion yn fodlon ar gwmpas arfaethedig yr adroddiad. Rhoddodd nifer o ymgyngoreion bwyntiau manwl ar y materion a gyflwynwyd gan y trwyddedai. Ar ben hynny tynnodd ymgyngoreion sylw at nifer o faterion eraill nad oeddynt wedi'u nodi'n glir yn y cwmpas arfaethedig er mwyn iddynt gael eu hystyried.

11) Mae'r ymatebion a gafwyd gan HSE wedi'u hystyried a'u hymgorffori, fel y bo'n briodol, ym marn HSE. Mae copïau llawn o'r ymatebion wedi'u hanfon i'r trwyddedai dim ond gyda chaniatâd ymgyngoreion.

Barn HSE ar gynnwys y datganiad amgylcheddol

Cwmpas arfaethedig a chynnwys cyffredinol

12) Mae adroddiad cwmpasu'r trwyddedai yn darparu trosolwg o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt yn y datganiad amgylcheddol:

a) Ansawdd aer a llwch;

b) Archeoleg a threftadaeth ddiwylliannol;

c) Ecoleg;

d) Daeareg, hydroddaeareg a phriddoedd;

e) Tirwedd a gweledol;

f) Sŵn a dirgrynu;

g) Gollyngiadau ymbelydrol arferol;

h) Economaidd-gymdeithasol;

i) Dŵr wyneb; ,

j) Traffig a chludiant.

13) Dylai'r trwyddedai ystyried gofynion y rheoliadau a disgwyliadau HSE, o ran cynnwys cyffredinol y datganiad amgylcheddol, fel y nodir yn Atodiad 3. Mae HSE yn cydnabod bod y trwyddedai wedi nodi ei fwriad i roi sylw i'r materion hyn yn yr adroddiad cwmpasu. Mae Atodiad 3 hefyd yn cynnwys sylwadau ar ddisgwyliadau HSE o ran cynnwys cyffredinol y datganiad amgylcheddol.

14) Ar ben hynny, dylid rhoi sylw i'r materion a godir a'r sylwadau a wneir yn Atodiadau 4 a 5. Trafodir y rhain ymhellach isod.

Pwyntiau manwl ar faterion yn yr adroddiad cwmpasu – y mae angen rhoi sylw iddynt yn y datganiad amgylcheddol

15) Yn seiliedig ar ei ddadansoddiad ei hun o'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad cwmpasu a sylwadau gan ymgyngoreion, mae HSE o'r farn y dylai'r trwyddedai roi sylw i rai pwyntiau manwl ar agweddau a drafodwyd yn yr adroddiad cwmpasu yn y datganiad amgylcheddol ei hun. Nodir y pwyntiau hyn yn Atodiad 4.

Pwyntiau ar faterion eraill – a allai fod yn ddefnyddiol wrth lunio'r datganiad amgylcheddol

16) Rhestrir nifer o bwyntiau eraill yn Atodiad 5. Mae HSE yn awgrymu, er nas mynnir yn benodol, y gallai'r pwyntiau hyn fod yn ddefnyddiol wrth lunio'r datganiad amgylcheddol.

Cyflwyniad

17) Caiff copïau o'r farn hon eu hanfon er gwybodaeth at bob ymgynghorai a restrir yn Atodiad 1. Caiff y farn, ynghyd â chopïau o sylwadau ymgyngoreion eu harddangos yng Nghanolfan Wybodaeth a Swyddfa Ardal Leol HSE fel y rhestrir yn Atodiad 6 a'r llyfrgelloedd cyhoeddus a restrir yn Atodiad 7. Neu mae'r farn ar gael ar y rhyngrwyd yn http://www.hse.gov.uk/nuclear/consult.htm

Goblygiadau

18) Efallai y bydd y trwyddedai am ddarparu hyblygrwydd yn y datganiad amgylcheddol i ymdrin â newidiadau gweithredol neu newidiadau eraill yn y dyfodol, y gellir eu rhagweld yn rhesymol ar adeg gwneud y cais am ganiatâd.

19) Bydd HSE yn ymgynghori ynghylch y datganiad amgylcheddol ar gyfer Atomfa'r Wylfa pan gaiff ei ddarparu gan y trwyddedai.

Cyswllt

EIADR Team, Health and Safety Executive, Nuclear Directorate, Building 4.S.1, Redgrave Court, Bootle, Merseyside, L20 7HS

Ffôn: 0151 951 3571

Ffacs: 0151 951 4163

E-bost: eia.team@hse.gsi.gov.uk

ATODIAD 1

Ymgyngoreion yr adroddiad cwmpasu

Cyrff ymgynghori

Ymgynghorodd HSE â phum unigolyn mewn tri sefydliad

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Cyngor Sir Ynys Môn

Sefydliadau eraill

Ymgynghorodd HSE â 54 o unigolion mewn 54 o sefydliadau

Cyngor Tref Amlwch
Partneriaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn
Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn
Ymddiriedolaeth Adareg Prydain
Cadw
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Awdurdod Harbwr Bae Cemaes
Cymdeithas Masnach a Thwristiaeth Bae Cemaes
Ysgol Gynradd Cemaes
Yr Awdurdod Hedfan Sifil
Y Gwnstabliaeth Niwclear Sifil
Pwyllgor ar Agweddau Meddygol Ymbelydredd yn yr Amgylchedd (COMARE)
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Ystadau'r Goron
Cyngor Cymuned Cylch y Garn
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)
Adran yr Amgylchedd, Treftadaeth a Llywodraeth Leol (Iwerddon)
Yr Adran Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd - Llywodraeth Ynys Manaw
Undeb Amaethwyr Cymru
Ffederasiwn Busnesau Bach
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Cymru)

Comisiwn Coedwigaeth
Cyfeillion Gwiwerod Coch Ynys Môn
Cyfeillion y Ddaear
Greenpeace
Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd
Yr Asiantaeth Briffyrdd
Clwb Hwylio Caergybi
Cyngor Cymuned Llanbadrig
Yr Asiantaeth Forwrol ac Arfordirol
Cyngor Cymuned Mechell
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Network Rail
Clwb Mordeithio Gogledd Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Heddlu Gogledd Cymru
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru
Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru
Awdurdod Digomisiynu Niwclear
Awdurdodau Lleol Di-Niwclear
Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Niwclear
Cymdeithas y Cerddwyr (Cymru)
Llu Awyr Brenhinol y Fali
Clwb Hwylio Brenhinol Môn
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cymdeithas Ffederasiwn Pysgotwyr Cymru
Dŵr Cymru
Cymdeithas Hwylio Cymru

Grŵp Rhanddeiliaid Safle

Ymgynghorodd HSE â 52 o unigolion mewn 34 o sefydliadau a 14 o bartïon eraill â diddordeb.

Cyngor Tref Amlwch
Cyngor Sir Ynys Môn
Ffederasiwn Sefydliad y Merched Ynys Môn
Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Cymdeithas Masnach a Thwristiaeth Bae Cemaes
Cymdeithas y Tirfeddianwyr
Cyngor Cymuned Cylch y Garn
Asiantaeth yr Amgylchedd
Undeb Amaethwyr Cymru
Ffederasiwn Busnesau Bach
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Cyfeillion y Ddaear Cymru
Cyngor Cymuned Llanbadrig
Gorsaf Ynni Maentwrog
Magnox North Ltd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Y Grid Cenedlaethol
Awdurdod Digomisiynu Niwclear
Awdurdod Tân Gogledd Cymru
Heddlu Gogledd Cymru
Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru
Swyddfa'r Gwnstabliaeth Niwclear Sifil
Pobol Atal Wylfa B (PAWB)
Plaid Cymru
Atomfa Trawsfynydd
Prifysgol Bangor
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Awdurdod Datblygu Cymru
Dŵr Cymru
Sefydliad y Merched
WRVS
Atomfa Wylfa
14 aelod arall o SSG

ATODIAD 2

Ymgyngoreion a ymatebodd i'r adroddiad cwmpasu

Cafodd HSE 13 o ymatebion ynghylch yr adroddiad cwmpasu gan 13 o sefydliadau.

Cadw
Pwyllgor ar Agweddau Meddygol Ymbelydredd yn yr Amgylchedd (COMARE)
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Cymru)
Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd
Cyngor Sir Ynys Môn
Llywodraeth Ynys Manaw
Heddlu Gogledd Cymru
Llu Awyr Brenhinol y Fali
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)
Priffyrdd y DU A55 Cyfyngedig
Dŵr Cymru

ATODIAD 3

Cynnwys cyffredinol y datganiad amgylcheddol

1) Mae'r Atodiad hwn yn disgrifio cynnwys cyffredinol y datganiad amgylcheddol fel sy'n ofynnol gan EIADR, ynghyd â sylwadau gan HSE ar ei ddisgwyliadau yn hyn o beth. Mae HSE yn cydnabod bod y trwyddedai wedi nodi ei fwriad i roi sylw i'r materion hyn yn yr adroddiad cwmpasu.

Disgrifiad o'r prosiect

2) Mae EIADR yn mynnu bod y datganiad amgylcheddol yn cynnwys disgrifiad o'r prosiect, gan gynnwys yn arbennig:

   a. Disgrifiad o nodweddion ffisegol y prosiect cyfan a'r gofynion defnydd tir yn ystod y camau adeiladu a gweithredu;

   b. Disgrifiad o brif nodweddion y prosesau cynhyrchu, er enghraifft natur a swm y deunyddiau a ddefnyddir; a

   c. Amcangyfrif, yn ôl math a swm, o'r gwaddodion a'r gollyngiadau disgwyliedig yn deillio o weithredu'r prosiect arfaethedig
   (EIADR, Atodlen 1, paragraffau 1 ac 8).

3) Mae HSE yn disgwyl i'r datganiad roi darlun clir o'r prosiect cyfan, gan gynnwys:

   a. Y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw;

   b. Y cyfnod gofalu a chynnal a chadw;

   c. Cyfnod clirio'r safle yn derfynol;

   ch. Cludiant; ,

   d. Y modd y trinnir gwastraff.

Opsiynau a rhesymau dros yr opsiwn a ddewiswyd

4) Mae EIADR yn ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad amgylcheddol yn cynnwys amlinelliad o'r prif opsiynau eraill a astudiwyd gan y trwyddedai, a'i fod yn nodi'r prif resymau dros yr opsiwn a ddewiswyd, gan ystyried yr effeithiau amgylcheddol (EIADR, Atodlen 1, paragraffau 2, 10 ac 11). Mae HSE yn disgwyl i'r datganiad roi sylw i opsiynau ar gyfer y prosiect cyfan, fel y'u rhestrir ym mharagraff 2 uchod.

Disgrifiad o'r effeithiau tebygol ar yr amgylchedd

5) Mae EIADR yn ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad amgylcheddol yn disgrifio effeithiau tebygol y prosiect arfaethedig ar yr amgylchedd, a ddylai gynnwys effeithiau uniongyrchol ac unrhyw effeithiau anuniongyrchol, eilaidd, cynyddol, byrdymor, canol canolig a hirdymor, parhaol a dros dro, a chadarnhaol a negyddol a gaiff y prosiect ar yr amgylchedd (EIADR, Atodlen 1, paragraffau 3 a 4)

6) Mae HSE yn disgwyl i'r datganiad gwmpasu'r prosiect cyfan o'r cyfnod datgymalu i gyfnod clirio'r safle a rhoi sylw, ymhlith pethau eraill, i ddigwyddiadau damweiniol neu anffafriol. Ar ben hynny, dylid nodi natur effeithiau amgylcheddol andwyol yn deillio o sefyllfaoedd anarferol posibl drwy gydol y cyfnod digomisiynu a pha mor debygol ydynt o ddigwydd. Er efallai nad oes modd disgrifio, ar hyn o bryd, ddiwedd y cyfnod digomisiynu yn fanwl gywir, dylai'r datganiad gynnwys y bwriad strategol ar gyfer cwblhau'r gwaith digomisiynu yn y pen draw a chymaint o fanylion â phosibl am effeithiau amgylcheddol. Lle ceir ansicrwydd tua diwedd y gwaith digomisiynu, dylid nodi hynny. Disgrifir rhai agweddau manylach isod.

7) Mae HSE yn disgwyl i'r ystyriaeth a roddir i natur gynyddol effeithiau gynnwys asesu effaith ychwanegol y prosiect digomisiynu ar ddatblygiadau a gwaith sy'n bodoli eisoes, hyd yn oed pan nad ydynt yn gysylltiedig â'r prosiect. Ar ben hynny, mae'n rhaid asesu effeithiau cynyddol agweddau gwahanol ar y prosiect a'u disgrifio'n glir yn y datganiad. Er mwyn gwneud yr asesiad o effeithiau cynyddol dylid cynnwys y mathau canlynol o brosiectau (os bydd gwybodaeth ar gael):

   a. Prosiectau a gwblhawyd eisoes;

   b. Prosiectau a gymeradwywyd ond nas cwblhawyd;

   c. Gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt;

   d. Cynlluniau neu brosiectau y mae cais wedi'i wneud amdanynt ac sy'n cael eu hystyried gan yr awdurdodau cydsyniol; ,

e. Cynlluniau a phrosiectau y gellir yn rhesymol eu rhagweld, h.y. prosiectau na chyflwynwyd cais amdanynt eto, ond sy'n debygol o fynd yn eu blaen cyn cwblhau'r datblygiad ac y mae digon o wybodaeth ar gael amdanynt i asesu pa mor debygol ydyw y byddant yn cael effeithiau cynyddol neu effeithiau ar y cyd.

Mesurau i reoli effeithiau ar yr amgylchedd

8) Mae EIADR yn ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad amgylcheddol yn disgrifio mesurau a ragwelir i atal, lleihau a lle y bo'n bosibl wrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd (EIADR, Atodlen 1, paragraffau 5 a 9).

Gollyngiadau a gwastraff ymbelydrol

9) Mae HSE yn disgwyl i'r datganiad amgylcheddol ystyried gollyngiadau ymbelydrol posibl a storio gwastraff ymbelydrol dros dymor hir (D.S. bydd gollyngiadau awdurdodedig yn parhau i gael eu gwneud o dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993). Dylid ystyried mathau eraill o wastraff hefyd, gan gynnwys asbestos, a gwastraff peryglus arall a gwastraff arall nad yw'n beryglus (EIADR, Atodlen 1, paragraff 1).

Crynodeb annhechnegol

10) Mae EIADR yn ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad amgylcheddol yn cynnwys crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth a ddarparwyd (EIADR, Atodlen 1, paragraffau 6 a 12).

Nodi unrhyw anawsterau

11) Mae EIADR yn ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad amgylcheddol yn nodi unrhyw ddiffygion technegol neu unrhyw ddiffyg gwybodaeth a nodwyd wrth gasglu'r wybodaeth (EIADR, Atodlen 1, paragraff 7).

ATODIAD 4

Pwyntiau manwl ar faterion yn yr adroddiad cwmpasu – y mae angen rhoi sylw iddynt yn y datganiad amgylcheddol

1) O ganlyniad i'w ddadansoddiad ei hun, ynghyd â sylwadau gan ymgyngoreion, mae HSE o'r farn y dylai'r trwyddedai ystyried y pwyntiau manwl, a restrir isod, ar y materion yn yr adroddiad cwmpasu a gyflwynwyd gan y trwyddedai. Ni ddisgrifir rhai o'r pwyntiau manwl hyn yn glir ond efallai y cyfeirir atynt yn yr adroddiad cwmpasu. Dylai'r manylder a ddarperir yn y datganiad amgylcheddol o ran materion yr ymdrinnir â hwy gan ddeddfwriaeth arall (Paragraff 34 o'r Atodiad hwn), fod yn gyson â'r hyn a ddisgrifir ym Mharagraff 35 o'r Atodiad hwn.

Ansawdd aer a llwch

2) Dylai'r asesiad o'r effaith amgylcheddol roi digon o sylw i'r effeithiau ar ansawdd aer sy'n deillio o ollyngiadau o weithfeydd gwastraff a llwch yn deillio o waith dymchwel.

3) Dylid ystyried ymestyn y parth asesu ar gyfer gollyngiadau llwch o waith dadgomisiynu y tu hwnt i'r parth 1km o amgylch ffin y safle.

4) Dylid ystyried darparu lefelau dangosol ar gyfer crynoadau atmosfferig rhagweledig o Ddeunydd Gronynnol (PM_{10}) mewn lleoliadau derbynnydd perthnasol, sy'n deillio o waith sy'n creu llwch, er enghraifft gwaith adeiladu, dymchwel, cloddio, defnyddio ffrwydron, cerbydau'n symud, llwytho a phentyrru pridd a rwbel. Dylid ystyried fformatio'r crynoadau rhagweledig ar gyfer pob derbynnydd fel y gellir eu cymharu â'r amcanion a nodir yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Lloegr) 2000 (fel y'u diwygiwyd).

5) Dylid ystyried asesu effeithiau newidiadau i brosesau llosgi ar y safle.

6) O ran monitro llwch ffo, dylid ystyried:

   a) Nodi a all llwch yn deillio o weithgareddau digomisiynu gynnwys deunydd ymbelydrol; ,

   b) Cynnwys asesiad o'r modd y caiff gollyngiadau llwch ffo eu rheoli a'u monitro i ffwrdd o'r safle a pha fesurau lliniaru a ddefnyddir i leihau effaith llwch hyd yr eithaf.

7) Dylid ystyried monitro cwynion ynghylch llwch.

Archeoleg a threftadaeth ddiwylliannol

8) Dylai'r asesiad o'r effaith amgylcheddol roi digon o sylw i'r effeithiau yn gysylltiedig ag archeoleg a threftadaeth ddiwylliannol;

9) Dylid ystyried trafod cwmpas a natur yr arolwg y bwriedir ei gynnal gyda rheolyddion a sefydliadau perthnasol a chynnwys crynodeb o'r trafodaethau yn y datganiad amgylcheddol.

10) Dylid ystyried nodi sut y caiff yr effeithiau eu monitro a chynnwys gwybodaeth am y modd y caiff effeithiau eu lliniaru, fel y bo'n briodol.

Ecoleg

11) Dylid ystyried ymestyn yr ardal asesu y tu hwnt i 2km a chynnwys yr ardaloedd canlynol yn yr asesiad o'r effaith amgylcheddol:

a. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Henborth, Tre'r gof, Ynys Feurig, Ynysoedd y Moelrhoniaid a Bae Cemlyn;

b. Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Ynys Feurig, Ynysoedd y Moelrhoniaid a Bae Cemlyn;

c. Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Ynys Feurig, Ynysoedd y Moelrhoniaid a Bae Cemlyn.

Byddai HSE yn disgwyl i'r cyfryw asesiad gynnwys (pan fo'n berthnasol) roi sylw i ansawdd aer a llwch, sŵn a dirgrynu, goleuadau, dŵr wyneb a daeareg, hydroddaeareg a phriddoedd (gan gynnwys effeithiau dŵr daear) ar dderbynyddion ecolegol.

12) Dylid ystyried gwneud arolygon maes yn ystod adegau priodol o'r flwyddyn, i nodi pa mor niferus yw rhywogaethau a warchodir yn yr ardal astudio, yn arbennig dylid:

a. Cynnal arolwg cynefinoedd i nodi unrhyw gynefinoedd pwysig ac unrhyw rywogaethau a restrir o dan Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth cenedlaethol (DU) neu leol;

b. Nodi a oes unrhyw rywogaethau anifeiliaid a warchodir ac unrhyw rywogaethau eraill o anifeiliaid i'w cael yn yr ardal asesu, ac os felly, cynnwys yn yr asesiad: er enghraifft ystlumod, moch daear, dyfrgwn, llygod dŵr ac infertebratau, ymlusgiaid ac amffibiaid;

c. Nodi a oes unrhyw rywogaethau planhigion a warchodir ac unrhyw rywogaethau eraill o blanhigion i'w cael yn yr ardal asesu ac os felly, cynnwys yn yr asesiad;
d. Asesu patrymau bridio, bwyta a chlwydo adar o fewn y safle ei hun ac o fewn 2km o amgylch ffin y safle;

e. Asesu a oes unrhyw rywogaethau adar a warchodir ac unrhyw rywogaethau eraill o adar i'w cael, er enghraifft, brain coesgoch, tylluanod gwynion, melyn yr eithin a golfan y coed; hwyaid gwylltion, corhwyaid, hwyaid llygad aur, hwyaid llydanbig, chwiwellau, hwyaid copog a hwyaid cynffon wennol; ,

f. Nodi a yw unrhyw wrychoedd neu unrhyw lystyfiant lled-naturiol arall a geir yn yr ardal asesu yn cael eu cyfrif yn 'bwysig' o dan Reoliadau Gwrychoedd 1997.

13) Dylid ystyried:

a. Asesu'r effaith ar dderbynyddion a chynefinoedd sensitif a leolir gerllaw'r ffin ddiogelwch fewnol;

b. Asesu'r effeithiau ar ddarnau o weundir, cynefinoedd ymyl traeth, coetir gwlyb a glaswelltir gwlyb sy'n cyffinio ag Atomfa Wylfa;

c. Pan fo'n berthnasol asesu effaith llygryddion aer megis ocsidau nitrogen (a dyddodi nitrogen), sylffwr deuocsid, cyfansoddion organig anweddol, gollyngiadau gronynnol a llwch ar rywogaethau sensitif a all fod yn bresennol;

d. Asesu'r effeithiau (e.e. sŵn a tharfu gweledol) ar boblogaethau adar gan gynnwys ystyried poblogaethau o adar sy'n gaeafu, adar mudol ac adar teithiol a warchodir sydd o bwys rhyngwladol a chenedlaethol, a hefyd colli cynefinoedd bwyta, lleoliadau/cynefinoedd clwydo sefydledig a chynefinoedd bridio neu darfu arnynt a tharfu ar lwybrau hedfan a llwybrau mudo;

e. Dangos ymrwymiad i gytuno ar arolygon a mesurau lliniaru â rheolyddion a sefydliadau perthnasol pan fo'n briodol.

14) Dylid ystyried asesu effaith newidiadau i echdyniadau neu ollyngiadau trwy'r system dŵr oeri neu'r effaith os cânt eu hatal* a gwaith i symud strwythurau cysylltiedig, er enghraifft ar brosesau arfordirol, a bod yn fanwl gywir. Yn arbennig, dylid ystyried yr effeithiau:

a. a gaiff gwaredu strwythurau ar y môr ar blanhigion ac anifeiliaid morol, gan gynnwys aflonyddu o ganlyniad i weithgareddau gwaith; ,

b. O ran colli cynefin ar unrhyw strwythur ar y môr a ddefnyddir gan adar.

15) O ran effeithiau amgylcheddol y prosiect digomisiynu ar rywogaethau a warchodir a nodwyd o fewn yr ardal astudio, dylid ystyried:

a. Nodi sut y caiff effeithiau eu monitro;

---

* Er bod HSE yn cydnabod bod newidiadau i echdyniadau neu ollyngiadau neu atal echdyniadau neu ollyngiadau yn un o effeithiau gorffen cynhyrchu ynni yn hytrach na rhan o'r prosiect digomisiynu.

b. Cynnwys gwybodaeth am sut y caiff effeithiau eu hosgoi, eu gwrthbwyso neu eu lliniaru.

Daeareg, Hydroddaeareg a phriddoedd

16) Dylid disgrifio daeareg a hydroddaeareg y safle a dylid ystyried:

a. Darparu gwybodaeth sylfaen am ddeunydd halogedig ar y safle (ac oddi ar y safle os yw'n berthnasol) a phan fo angen dylid ystyried cynnwys dadansoddiadau pridd a dŵr ffynnon;

b. Nodi holl ffynonellau a llwybrau posibl halogiad (mae HSE yn cydnabod bod y trwyddedai wedi nodi y caiff hyn ei gynnwys yn yr asesiad);

c. Asesu effeithiau storio gwastraff dros dro (yn halogedig ac yn ddihalog) ar briddoedd a hydroddaeareg; ,

d. Effaith y broses ddigomisiynu ar gyflenwadau dŵr cyhoeddus.

Tirwedd a gweledol

Dylid ystyried:

a. Darparu manylion am leoliad, uchder, cynllun, synwyryddion a goleuder pob llifolau, y gellir ei ddefnyddio, ynghyd â'r mesurau arfaethedig i gyfyngu ar olau llachar ymwthiol i eiddo gerllaw;

b. Ystyried effeithiau newidiadau i oleuadau ar gerddwyr a llongwyr; ,

c. Ystyried yr effeithiau gweledol a gaiff newidiadau i strwythurau ar y safle ar fordwyo.

Sŵn a dirgrynu

18) Mae'n rhaid i'r trwyddedai ymgynghori â'r cyngor priodol ynghylch sŵn a dirgrynu. (Mae HSE yn cydnabod bod y trwyddedai wedi nodi ei fod yn bwriadu ymgynghori â Chyngor Sir Ynys Môn).

19) Dylid ystyried monitro cwynion ynghylch sŵn.

20) Dylid ystyried:

a. Darparu data sylfaen am lefelau sŵn ar y safle ac oddi arno wrth y derbynyddion mwy sensitif;

b. Dylid ystyried effeithiau sŵn a dirgrynu ar hyd ffyrdd lleol; ,

c. Dylid ystyried effeithiau ecolegol ac effeithiau dros dro eraill ffynonellau sŵn e.e. yn ystod gwaith dymchwel gall y sŵn a'r dirgrynu effeithio ar lwybrau mudol pysgod.

Economaidd-gymdeithasol

21) Dylid ystyried asesu effaith economaidd-gymdeithasol uniongyrchol ac anuniongyrchol y prosiect digomisiynu.

Dŵr wyneb

22) Dylid ystyried cyfeirio at Ganllawiau'r Adran Drafnidiaeth* wrth werthuso unrhyw effeithiau ar ddŵr wyneb sy'n gysylltiedig â phriffyrdd (er enghraifft effeithiau dŵr ffo o briffyrdd ar lygredd).

23) Dylid ystyried asesu effaith gweithgareddau'r safle ar yr arfordir a chynefinoedd arfordirol (gan gynnwys prosesau arfordirol).

Traffig a chludiant

24) Dylid ystyried:

a. Trafod gofynion o ran cynnal a chadw ffyrdd gyda'r awdurdod priffyrdd perthnasol;

b. Trafod trefniadau arbennig y gall fod eu hangen i gludo llwythau mawr/trwm, a chynlluniau wrth gefn os bydd damwain, yn arbennig dros Bont Britannia gyda'r awdurdodau perthnasol;

c. Cynnwys asesu diogelwch cerddwyr a beicwyr yn gysylltiedig â thraffig;

d. Asesu effaith y prosiect ar rannau perthnasol o'r ffordd ac os yw'n briodol, y rhwydwaith rheilffyrdd;

e. Asesu effaith y prosiect ar Bont Menai a Phont Britannia;

f. Effeithiau cronnol nad ydynt yn gysylltiedig â'r prosiect digomisiynu e.e. gwaith adeiladu arfaethedig yng Ngorsaf Llu Awyr Brenhinol y Fali;

g. Asesu'r angen i ailarolygu lefelau traffig a thueddiadau o ran traffig ar ryw adeg briodol yn y dyfodol (i fynd i'r afael â'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â data ar ôl 2003);

---

* The Design Manual for Roads and Bridges, Volume 11 [DMRB 11] – Environmental Assessment, yr Adran Drafnidiaeth, 1993 (fel y'i diwygiwyd, 2002)

h. Asesu effeithiau unrhyw newidiadau ffisegol arfaethedig i gyffyrdd neu aliniadau cyffredinol lonydd cerbydau ar lefelau sŵn ac ansawdd aer;

i. Gweithredu Cynllun Teithio Gwyrdd (er enghraifft i annog cymudwyr i beidio â theithio ar eu pennau eu hunain mewn cerbydau); ,

j. Asesu ymhellach opsiynau cludiant ffordd, dŵr a / neu reilffordd.

25) Dylid ystyried trafod a allai mesurau lliniaru leihau effaith llif traffig uwch gyda'r awdurdod priffyrdd perthnasol a dylid ystyried cynnwys crynodeb o'r trafodaethau yn y datganiad amgylcheddol.

26) Dylid ystyried yr effeithiau a gaiff symud strwythurau derbyn ac arllwys dŵr oeri ar fordwyo a'r defnydd o gychod hamdden yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys rhoi hysbysiadau i Longwyr, yn nodi manylion y gweithrediad.

Gwaith peirianneg sifil a datblygiadau eilaidd

27) Dylai'r datganiad amgylcheddol nodi'n glir nifer a diben yr adeiladau a'r cyfleusterau y mae angen eu hadeiladu yn ystod y prosiect, ynghyd â chrynodeb o'r effeithiau a gânt ar yr amgylchedd a'r angen am ganiatadau o dan ddeddfwriaeth Cynllunio Gwlad a Thref. Dylid ystyried:

a. Nodi maint, lleoliad a statws cynllunio tebygol unrhyw gyfleuster rheoli / trin gwastraff neu storfa wastraff arfaethedig ac unrhyw fesurau lliniaru tebygol sy'n gysylltiedig ag ef;

b. Nodi y gall y gwaith o brosesu gwastraff lefel isel ddatgelu gwastraff lefel ganolraddol a chynnwys yr olaf wrth ystyried cynlluniau ar gyfer y cyfleuster rheoli / trin gwastraff; ,

c. Nodi'n glir unrhyw adeiladau neu gyfleusterau ategol y mae'n debyg y bydd eu hangen yn ystod y prosiect digomisiynu.

28) Dylid ystyried darparu gwybodaeth am y rhaglen o waith peirianneg sifil arall, y bwriedir ei wneud ar y safle yn ystod y prosiect. Yn arbennig gallai hyn gynnwys gwybodaeth am:

a. Tasgau peirianyddol penodol y bwriedir eu cyflawni, er enghraifft, datgymalu peiriannau, dymchwel adeiladau sy'n bodoli eisoes, gwaith cloddio, gwaith pentyrru, defnyddio ffrwydron; ,

b. Amseriad tebygol y tasgau hyn.

Gwaredu gwastraff ymbelydrol

29) Dylid ystyried:

a. Darparu data dangosol am ollyngiadau ymbelydrol ar gyfer y cyfnod paratoi ar gyfer gofalu a chynnal a chadw;

b. Nodi proffiliau gollyngiadau ymbelydrol amlinellol ar gyfer y cyfnod gofalu a chynnal a chadw a chyfnod clirio'r safle;

c. Nodi faint o ddeunydd ymbelydrol a symudir o'r safle yn ystod pob cyfnod digomisiynu, o ran y gyfran o gyfanswm y deunydd ymbelydrol a oedd i'w gael ar y safle ar ddechrau'r prosiect;

d. Cwmpasu effeithiau amgylcheddol yr opsiynau a gynigiwyd ar gyfer storio gwastraff lefel ganolraddol;

e. Nodi faint o wastraff ymbelydrol y bydd angen ei storio ar y safle; ,

f. Darparu crynodeb o fesurau i atal deunydd ymbelydrol rhag gorlifo a gollwng i'r amgylchedd, ynghyd â chyfeiriad at y ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â'r cyfryw faterion.

Trin gwastraff ac eithrio gwastraff ymbelydrol

30) Dylid ystyried:

a. Cynnwys yn yr asesiad, y posibilrwydd y gallai gwastraff peryglus hefyd fod yn ymbelydrol;

b. Darparu amcangyfrifon o'r symiau o wahanol fathau o wastraff peryglus a gaiff eu trin, a'r llwybrau gwaredu tebygol, gan gynnwys nodi faint o'r cyfryw wastraff a gaiff ei storio ar y safle;

c. Darparu gwybodaeth am y modd y rheolir gwastraff peryglus e.e. asbestos gan gyfeirio at y ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â'r cyfryw faterion;

d. Darparu amcangyfrifon o'r symiau o wastraff dymchwel a'r llwybrau gwaredu tebygol, gan gynnwys nodi'r symiau o wahanol fathau o wastraff y bwriedir eu cadw ar y safle, wedi'u defnyddio ar gyfer gwaith tirlunio a thirlenwi;

e. Amcangyfrif o'r gwagle a grëir trwy symud gwahanol strwythurau ac adeiladau;

f. Darparu gwybodaeth am y potensial sydd i ailgylchu deunyddiau gwastraff;

g. Darparu crynodeb o'r modd y caiff deunyddiau gwastraff eu prosesu o fewn y cyfleuster rheoli gwastraff; ,

h. Nodi gollyngiadau a allai ddeillio o brosesau trin gwastraff.

Methodoleg asesu'r effaith

31) Dylai'r datganiad amgylcheddol gynnwys manylion am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i wneud unrhyw un o'r ymchwiliadau neu'r arolygon.

Gwaelodlin

32) Dylid ystyried a oes angen blwyddyn sylfaen generig, mewn gwirionedd, ym mhob maes pwnc. Mae angen data dilys ar yr effeithiau penodol ar yr amgylchedd sy'n gysylltiedig â'r safle cyn i unrhyw newidiadau ddigwydd; fodd bynnag, gall y data hwn ddod o wahanol adegau ar yr amod ei fod yn gynrychioliadol.

Defnyddio adnoddau

33) Dylid ystyried darparu amcangyfrif o faint o ddŵr y bydd angen ei gyflenwi ar gyfer y prosiect ac a yw'r trefniadau seilwaith presennol yn ddigonol.

Materion yr ymdrinnir â hwy gan ddeddfwriaeth arall

34) Ymdrinnir â nifer o faterion gan ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, a bydd y rhain yn parhau i gael eu gorfodi. Mae'r materion hyn yn cynnwys:

a. Parhad o ran rheoli'r safle;

b. Diogelwch a chyfanrwydd y safle, gan gynnwys tresmasu gan bobl ac anifeiliaid;

c. Diogelwch tân, gan gynnwys diogelwch contractwyr ychwanegol sydd wedi'u cartrefu mewn llety dros dro, gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â digwyddiadau yn cynnwys deunyddiau peryglus, a chysylltu â'r gwasanaeth tân lleol;

d. Trefniadau argyfwng;

e. Diogelwch peiriannau, gan gynnwys datgymalu'r adweithydd;

f. Dad-drwyddedu'r safle yn derfynol;

g. Diogelwch cludiant, gan gynnwys nodi llwybrau ffordd safonol (sy'n dwyn goblygiadau ar gyfer tagfeydd ar lonydd cul), ac ymdrin â digwyddiadau yn cynnwys cerbydau ar dân a gollyngiadau deunydd peryglus;

h. Agweddau iechyd a diogelwch ar reoli llwch o, er enghraifft, waith mathru meini ar y safle;

i. Amlygiad i ymbelydredd ïoneiddio;

j. Cyfanrwydd amddiffynfeydd rhag llifogydd;

k. Rhyddhau deunydd ymbelydrol a gwastraff nad yw'n ymbelydrol; ,

l. Datblygiadau eilaidd ac ailorchuddio adeilad yr adweithydd.

35) Dylai'r datganiad amgylcheddol gynnwys cyfeiriadau at yr uchod a digon o fanylion i nodi'n glir gwmpas y materion dan sylw a sut y maent yn ymwneud â'r asesiad o'r effaith amgylcheddol. Fodd bynnag, pan fo'n briodol, dylid cyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol a chyflwyniadau cysylltiedig i'r awdurdodau rheoliadol, pan fydd y trwyddedai wedi darparu neu y bydd yn darparu mwy o fanylion.

ATODIAD 5

Pwyntiau ar faterion eraill – a allai fod yn ddefnyddiol wrth lunio'r datganiad amgylcheddol

1) Efallai y bydd y trwyddedai am ystyried y pwyntiau a restrir isod yn y datganiad amgylcheddol, er nad yw'r rhain yn ofynnol gan EIADR.

2) Gellir ystyried:

   a) Cynnwys strategaethau ar gyfer monitro effeithiau go iawn fesurau y bwriedir eu cymryd i osgoi, lleihau ac, os oes modd, unioni effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd. Gallai hyn gynnwys casglu data sylfaenol, a gwaith monitro yn ystod gwahanol gamau'r prosiect i ddangos effeithiolrwydd mesurau a gymerwyd i nodi'r angen i adolygu a diwygio mesurau;

   b) Defnyddio'r cyfnod oedi o 100 mlynedd cyn i'r gwaith o glirio'r safle ddechrau i ystyried yr opsiynau ar gyfer gwella'r ardal o safbwynt ecolegol;

   c) Dangos, pan fo'n briodol, sut y bydd y gwaith o reoli'r prosiect digomisiynu yn amgylcheddol yn cyfrannu at flaenoriaethau datblygu cynaliadwy lleol;

   d) Cynnwys y boblogaeth leol yn y rhaglen ddigomisiynu, yn arbennig, trafod pryderon a disgwyliadau, a chynnwys llywodraeth leol mewn trafodaethau ynghylch defnydd tir a threfniadau ar gyfer cael gwared ar asedau er mwyn dwyn manteision i'r gymuned;

   e) Darparu manylion am ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol yr ydych wedi cysylltu â hwy neu y byddwch yn cysylltu â hwy i geisio gwybodaeth e.e. ymgyngoreion statudol, sefydliadau amgylcheddol, aelodau o'r cyhoedd;

   f) Darparu matrics crynhoi o'r gwahanol weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwaith arfaethedig a'r ystod o baramedrau amgylcheddol y gellid effeithio arnynt, gan raddio mewn rhyw ffordd bwysigrwydd posibl pob effaith;

   g) Nodi'n glir a yw'r adroddiad yn debygol o effeithio'n sylweddol ar amgylchedd un o wladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd;

   h) Sicrhau bod y fframwaith polisi a ddisgrifiwyd yn cynnwys gwybodaeth gyfoes am unrhyw bolisi perthnasol o eiddo'r llywodraeth ganolog;

i) Sicrhau y rhoddir digon o sylw i fanteision i'r amgylchedd a allai ddeillio o'r prosiect digomisiynu; ,

j) Defnyddio ffotograffau, ffotogyfosodiadau, ffigurau a diagramau pan fo'n briodol i egluro'r testun. Mae enghreifftiau o'r uchod yn cynnwys:
   i) Defnyddio mapiau yn dangos lleoliad y safle;
   ii) Defnyddio ffotogyfosodiadau i ddangos y broses o ddymchwel strwythurau fesul cam;
   iii) Map yn dangos lleoliadau safleoedd monitro sŵn oddi ar y safle; ,
   iv) Nodi cyfleusterau, megis llwybrau troed, ar ddiagramau yn dangos y Parthau Dylanwad Gweledol a nodwyd.

ATODIAD 6

Canolfan Wybodaeth a Swyddfa Leol HSE

Health and Safety Executive
Knowledge Centre
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
L20 7HS

Ffôn: 0151 951 4382
E-bost: knowledgecentre@hse.gsi.gov.uk

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Y Ganolfan Wybodaeth
Swyddfa Ardal Wrecsam
Uned 7 ac 8 Edison Court
Rhodfa Ellice
Parc Technoleg Wrecsam
Wrecsam
LL13 7YT

Ffôn: 01978 316001

ATODIAD 7

Llyfrgelloedd Cyhoeddus sy'n arddangos y Farn Cyn Gwneud Cais

Llyfrgell Amlwch
Lôn Parys
Amlwch
LL68 9EA
01407 830145

Llyfrgell Gyhoeddus Bangor
Ffordd Gwynedd
Bangor
Gwynedd
LL57 1DR
01248 353479

Llyfrgell Caergybi
Newry Fields
Caergybi
LL65 1LA
01407 762917

Llyfrgell Porthaethwy
Ffordd y Ffair
Porthaethwy
LL59 5AS
01248 712706

Llyfrgell Caernarfon
Ffordd y Pafiliwn
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AS
01286 675944

Llyfrgell Biwmares
Canolfan Gymunedol David Hughes
Biwmares
LL58 8AL
01248 810659

Llyfrgell Bae Cemaes
Lôn Glascoed
Bae Cemaes
LL67 0HN
01407 711025

Llyfrgell Llangefni
Lôn-y-Felin
Llangefni
LL77 7RT
01248 752095

Llyfrgell Moelfre
Y Ganolfan
Moelfre
LL72 8HA
01248 410331

Llyfrgell Rhosneigr
Y Stryd Fawr
Rhosneigr
LL64 5UX
01407 811 293

Atodiad 2 Ymgyngoreion y datganiad amgylcheddol

Cyrff ymgynghori

Ymgynghorodd HSE â thri unigolyn mewn tri sefydliad:

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Cyngor Sir Ynys Môn

Sefydliadau eraill

Ymgynghorodd HSE â 55 o unigolion mewn 55 o sefydliadau:

Cyngor Tref Amlwch
Partneriaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn
Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn
Ymddiriedolaeth Adareg Prydain
Cadw
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Awdurdod Harbwr Bae Cemaes
Cymdeithas Masnach a Thwristiaeth Bae Cemaes
Ysgol Gynradd Cemaes
Yr Awdurdod Hedfan Sifil
Y Gwnstabliaeth Niwclear Sifil
Pwyllgor ar Agweddau Meddygol Ymbelydredd yn yr Amgylchedd (COMARE)
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Cyngor Cymuned Cylch y Garn
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)
Adran yr Amgylchedd, Treftadaeth a Llywodraeth Leol (Iwerddon)
Yr Adran Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd (Llywodraeth Ynys Manaw)
Undeb Amaethwyr Cymru
Ffederasiwn Busnesau Bach
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Comisiwn Coedwigaeth
Cyfeillion Gwiwerod Coch Ynys Môn
Cyfeillion y Ddaear

Greenpeace
Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd
Yr Asiantaeth Briffyrdd
Clwb Hwylio Caergybi
Cyngor Cymuned Llanbadrig
Gorsaf Ynni Maentwrog
Yr Asiantaeth Forwrol ac Arfordirol
Cyngor Cymuned Mechell
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Y Grid Cenedlaethol
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Network Rail
Clwb Mordeithio Gogledd Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Heddlu Gogledd Cymru
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru
Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru
Awdurdod Digomisiynu Niwclear
Awdurdodau Lleol Di-Niwclear
Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Niwclear
Pobol Atal Wylfa B (PAWB)
Cymdeithas y Cerddwyr (Cymru)
Llu Awyr Brenhinol y Fali
Clwb Hwylio Brenhinol Môn
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Ystad y Goron
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cymdeithas Ffederasiwn Pysgotwyr Cymru
Dŵr Cymru
Cymdeithas Hwylio Cymru

Grŵp Rhanddeiliaid Safle (SSG)

Ymgynghorodd HSE â 55 o unigolion mewn 30 o sefydliadau a dau aelod o'r cyhoedd:

Amlwch Wledig
Cyngor Tref Amlwch
Swyddfa Diogelwch Sir Ynys Môn
Ffederasiwn Sefydliad y Merched Ynys Môn
Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Cymdeithas Masnach a Thwristiaeth Bae Cemaes
Cymunedau yn Gyntaf
Cymdeithas y Tirfeddianwyr
Asiantaeth yr Amgylchedd
Undeb Amaethwyr Cymru
Ffederasiwn Busnesau Bach
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Cymuned Llanbadrig
Cyngor Cymuned Mechell
Prosiect Môn a Menai
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Awdurdod Digomisiynu Niwclear
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Heddlu Gogledd Cymru
Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru
Plaid Cymru
Atomfa Trawsfynydd
Prifysgol Bangor
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dŵr Cymru
WRVS
Atomfa Wylfa

16 aelod arall o'r SSG
2 aelod o'r cyhoedd

Atodiad 3 Ymgyngoreion a ymatebodd i'r datganiad amgylcheddol

Cafodd HSE 16 o ymatebion ar y datganiad amgylcheddol gan 16 o sefydliadau ac un aelod o'r cyhoedd:

Cymdeithas Seryddol Prydain

Cadw

Pwyllgor ar Agweddau Meddygol Ymbelydredd yn yr Amgylchedd (COMARE)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Adran yr Amgylchedd, Treftadaeth a Llywodraeth Leol (Iwerddon)

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd

Cyngor Sir Ynys Môn

Llywodraeth Ynys Manaw

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Pobol Atal Wylfa B (PAWB)

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)

Grŵp Rhanddeiliaid Safle (SSG)

Ystad y Goron

Cynghrair Gwrth-Niwclear Cymru

Aelod o'r cyhoedd

Atodiad 4 Rhesymau dros y pynciau nas ystyriwyd at ddibenion tystiolaeth neu wybodaeth bellach

Rhestrir y prif bynciau a godwyd gan ymgyngoreion ynghylch y datganiad amgylcheddol nas ystyriwyd at ddibenion tystiolaeth neu wybodaeth bellach ar gyfer y datganiad amgylcheddol yma ynghyd ag esboniad byr pam roedd HSE o'r farn nad oedd angen tystiolaeth na gwybodaeth bellach. Mewn nifer o achosion, rheoleiddir y pynciau o dan ddeddfwriaeth arall lle y byddai cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno yn sicrhau yr amherid cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd.

1 Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae Magnox North Ltd wedi ymrwymo i adeiladu ar ei strategaeth gyfathrebu bresennol, sydd wedi cynnwys cymryd rhan mewn nifer o gyfarfodydd a rhoi cyflwyniadau am waith digomisiynu yn gyffredinol a chymhwyso EIADR. Bydd Magnox North Ltd yn parhau i gysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn ac ymgyngoreion eraill wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.

2 Perygl llifogydd

Mae trwydded y safle yn ei gwneud yn ofynnol i lunio achos diogelwch digonol ar gyfer y safle i gyfiawnhau'r diogelwch parhaol o ran peryglon allanol gan gynnwys perygl llifogydd.

3 Yr amserlen ar gyfer digomisiynu

Cyflwynodd y datganiad amgylcheddol opsiynau ar gyfer amserlenni digomisiynu ac ni newidiodd yr effeithiau amgylcheddol a ystyriwyd ganlyniad terfynol y broses o ddewis y strategaeth ddigomisiynu. Rheoleiddir amserlenni digomisiynu drwy drwydded y safle. Os caiff y strategaeth ddigomisiynu ei newid bydd rheoliad 13 o EIADR yn gymwys. Os bydd newid neu estyniad i brosiect a all gael effaith andwyol sylweddol byddai Magnox North Ltd yn gwneud cais i HSE am benderfyniad ynghylch a oes angen cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol.

4 Diogelwch

Swyddfa Diogelwch Niwclear Sifil HSE sy'n gyfrifol am drefniadau diogelwch. Mae NIA65 yn ymdrin â threfniadau argyfwng.

5 Pecynnu gwastraff lefel ganolraddol (ILW) a'i storio am gyfnod hir

Ymdrinnir â'r agweddau hynny ar weithgarwch pecynnu gwastraff lefel ganolraddol a'i storio am gyfnod hir sy'n ymwneud â diogelwch drwy'r gyfundrefn drwyddedu niwclear (mewn ymgynghoriad ag Asiantaeth yr Amgylchedd ar faterion amgylcheddol).Mae'r llywodraeth a'r Awdurdod Digomisiynu Niwclear yn ystyried y broses o ddewis safle ar gyfer storfa derfynol.

6 Y cyflwr terfynol

Mae'r Awdurdod Digomisiynu Niwclear wedi ymgynghori ar fater cyflyrau terfynol. Pe bai defnydd terfynol amgen ar gyfer safle Atomfa Wylfa, neu ran o safle Atomfa Wylfa, yn arwain at newid y prosiect digomisiynu fel y'i disgrifir ar hyn o bryd, wedyn byddai rheoliad 13 o EIADR yn gymwys pe gallai hynny gael effaith andwyol sylweddol ar yr amgylchedd

7 Gwaredu gwastraff lefel isel (LLW)

Ymdrinnir â gwaredu gwastraff lefel isel gan NIA65, RSA93 ac IRR99. Ar hyn o bryd ceir gwared ar wastraff lefel isel drwy ei anfon i'r storfa gwastraff lefel isel a leolir gerllaw Drigg. Os bydd amgylchiadau yn y dyfodol yn golygu bod angen newid llwybr gwaredu gwastraff lefel isel ac felly'r prosiect digomisiynu, wedyn bydd rheoliad 13 o EIADR yn gymwys fel uchod.

8 Effaith allyriadau llwch a cherbydau ar ansawdd aer

Yn y datganiad amgylcheddol pwysleisir ansawdd aer a llwch o symudiadau cerbydau a gweithgareddau dymchwel. Ymhlith y mesurau lliniaru a nodwyd mae: glanhau ffyrdd ar y safle yn rheolaidd; gorchuddio cerbydau sy'n cludo rwbel a llwythi llychlyd â chynfasau; defnyddio chwistrellau dŵr ar gyfer gweithgareddau dymchwel a mewnlenwi; gorchuddio arwynebau a chynfasau/defnyddio ffensys gwynt i atal llwch rhag cael ei ryddhau o bentyrrau; a defnyddio cyfleusterau golchi olwynion a chyrff cerbydau pan fo hynny'n briodol. Bwriedir i'r mesurau lliniaru atal llwch rhag cael ei greu yn y lle cyntaf ac o ganlyniad ni fydd yr effeithiau yn rhai sylweddol.

9 Archeoleg a threftadaeth ddiwylliannol

Daeth y rhan hon o'r datganiad amgylcheddol i'r casgliad nad oes unrhyw dystiolaeth o nodweddion o ddiddordeb archeolegol sydd wedi goroesi o fewn yr orsaf ynni. Cydnabyddir treftadaeth ddiwylliannol y safle gan Magnox North Ltd a chynhelir trafodaethau gyda Cadw a'r Awdurdod Digomisiynu Niwclear ynghylch arolwg Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn Atomfa Wylfa.

Trosglwyddir cofnodion hanesyddol a chofnodion digomisiynu i Archifdy Niwclear Cenedlaethol yr Awdurdod Digomisiynu yn ystod y broses ddigomisiynu wrth iddynt ddod ar gael.

10 Effeithiau cronnol

Ystyriodd Magnox North Ltd nifer o brosiectau cymeradwy neu arfaethedig mewn perthynas ag effeithiau cronnol: parc busnes (busnes a diwydiannol) y tu allan i Gaergybi; cyfleusterau glanio nwy naturiol hylifol ar y tir yn Amlwch; parc busnes defnydd cymysg (manwerthu, swyddfeydd a hamdden) gerllaw Pont Britannia; a datblygiad yn cynnwys tua 180 o unedau preswyl yn Llangefni. Oherwydd mai prosiectau bach a chanolig eu maint yw'r rhain ac oherwydd natur wledig Ynys Môn, nid ystyriwyd bod yr effeithiau cronnol sy'n gysylltiedig â digomisiynu Atomfa Wylfa yn rhai sylweddol.

Ystyriodd Magnox North Ltd y cynllun arfaethedig i ddatblygu gorsaf hyfforddi filwrol yng Ngorsaf Llu Awyr Brenhinol y Fali, a allai greu traffig ychwanegol ar ffordd yr A55 i Ynys Môn ac oddi yno. Oherwydd lleoliad safle'r orsaf ynni, y gwahanol lwybrau a ddefnyddir i gyrraedd y safleoedd a'r ffaith y dylai llifoedd traffig yr orsaf ynni yn ystod y broses ddigomisiynu fod yn llai o'u cymharu â'r senario sylfaen, nid ystyrir bod yr effeithiau cronnol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yng Ngorsaf Llu Awyr Brenhinol y Fali yn rhai sylweddol.

Ystyriodd Magnox North Ltd effeithiau economaidd-gymdeithasol cronnol cwmni Anglesey Aluminium Metal Limited (AAM) a'r posibilrwydd y byddai'n cau a daeth i'r casgliad, oherwydd y ffaith ei fod yn dra dibynnol ar Atomfa Wylfa am ynni ar gyfradd sefydlog, y gallai digomisiynu Atomfa Wylfa a'r cynnydd dilynol yn sylfaen gostau AAM oherwydd taliadau trosglwyddo uwch yn gysylltiedig â chymryd ynni o'r Grid Cenedlaethol, ei gwneud yn aneconomaidd i'r cwmni gynhyrchu alwminiwm. Yn dilyn yr asesiad hwn, ym mis Ionawr 2009 cyhoeddodd AAM ei fod yn bwriadu cau mwyndoddydd yng Nghaergybi ym mis Medi 2009 pan ddaw'r contract i gyflenwi ynni am bris sefydlog i ben a chyn i'r broses o gau Atomfa Wylfa ddechrau. Mae'r swyddi a ddarperir gan gwmni AAM yn rhoi cyfrif am 10% o'r holl gyflogaeth yng ngorllewin Ynys Môn. Yr effaith gronnol ar gyflogaeth o fewn yr ardal astudio pe bai Atomfa Wylfa ac AAM yn cau fyddai colli 1402 o swyddi uniongyrchol, sy'n cyfateb i ostyngiad o'r gyfradd cyflogaeth sylfaenol o 7.03% ac ystyrir ei bod yn effaith andwyol sylweddol.

Bydd unrhyw newidiadau neu estyniadau i'r prosiect a all gael effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd, gan gynnwys effeithiau cronnol, yn ddarostyngedig i ofynion rheoliad 13.

11 Ecoleg

Aflonyddu ar adar sy'n bridio, a nythfeydd o wylanod cefnddu a gwylanod y penwaig: bydd Magnox North Ltd yn sicrhau na fydd Man Storio 1, a leolir gerllaw'r nythfeydd gwylanod, yn ymestyn y tu hwnt i derfynau'r ffens ddiogelwch allanol a bydd yn osgoi gwaith digomisiynu allai darfu ar y gwylanod ac adar arall yn ystod tymor bridio'r adar.

Gwelliannau ecolegol: Mae gan Atomfa Wylfa Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n ceisio diogelu a gwella'r amgylchedd i fywyd gwyllt drwy wella cynefinoedd o amgylch y safle. Caiff y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ei ddiweddaru'n rheolaidd a bydd yn parhau i gael ei weithredu drwy gydol y prosiect digomisiynu.

Nododd arolwg botanegol ac arolwg cynefinoedd effeithiau sylweddol ar glogwyni arfordirol, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof, gwiberod, gwenoliaid y môr, adar sy'n bridio, gwylanod, morfilod, morloi ac ystlumod. Mae Magnox North Ltd wedi nodi strategaethau lliniaru yn y datganiad amgylcheddol a fydd yn sicrhau, os cânt eu gweithredu, bod yr holl effeithiau a nodwyd yn rhai dibwys. Am ragor o fanylion am y mesurau lliniaru arfaethedig gweler Atodiad 6, pwynt 3.

Os bydd newid neu estyniad i'r prosiect a all gael effaith andwyol sylweddol, bydd y trwyddedai yn gwneud cais i HSE am benderfyniad o dan reoliad 13 o EIADR ynghylch a oes angen cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol.

12 Daeareg, hydroddaeareg a phriddoedd

Aseswyd tir halogedig yn y datganiad amgylcheddol a darperir mesurau lliniaru a fydd yn lleihau'r holl effeithiau andwyol sylweddol posibl a nodwyd cymaint fel eu bod yn ddibwys. Am ragor o fanylion am y mesurau lliniaru arfaethedig gweler Atodiad 6, pwynt 4.

13 Tirwedd a gweledol

Caiff cyfadail porthdy'r arllwysfa a chored yr arllwysfa eu dymchwel i lefel y ddaear, caiff pob gwagle dan ddaear ei ôl-lenwi ac ailsefydlir wal gynnal ymyl traeth ‘naturiol’.

Gellid gostwng uchder adeilad yr adweithydd ar gost sylweddol a byddai angen peiriannau a systemau cymhleth i sicrhau y byddai adeilad yr adweithydd yn parhau'n ddiddos. Byddai peryglon a risgiau ychwanegol i weithwyr a'r amgylchedd yn gysylltiedig â'r rhain. Dim ond effaith weledol fanteisiol tymor byr i dymor canolig a geid o unrhyw ostyngiad yn uchder yr adeilad, am y byddai angen ei godi eto yn ystod cyfnod clirio'r safle yn derfynol i ganiatáu digomisiynu adeilad yr adweithydd yn derfynol. Mae angen caniatâd cynllunio i ailorchuddio adweithyddion ac felly mae angen trafod y mater gyda'r awdurdod cynllunio lleol a dod i gytundeb ag ef. Cynhwysir cynigion lliniaru ar gyfer hyn ac effeithiau eraill ar y dirwedd ac effeithiau gweledol eraill a nodwyd yn y datganiad rheoli amgylcheddol.

14 Sŵn a dirgrynu

Cyflawnir unrhyw weithgarwch adeiladu yn unol â Safon Brydeinig 5228:2009 *Code of practice for noise and vibration control on construction and open sites*.[20]

Nodwyd bod effeithiau sŵn ar eiddo o fewn 2 km i'r safle yn rhai andwyol sylweddol tymor canolig. Caiff mesurau lliniaru eu defnyddio i leihau'r effeithiau hyn, gan gynnwys: atalfeydd sŵn; defnyddio cyfarpar â distewyddion; defnyddio cyswllt safle; a hysbysu trigolion lleol o weithgareddau eithriadol. Mae Magnox North Ltd wedi cytuno i drafod gwaith y bwriedir ei wneud y tu allan i oriau gwaith arferol ac unrhyw ofynion monitro ymlaen llaw gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

Ni fydd yn bosibl asesu'r gostyngiad mewn sŵn a sicrheir drwy weithredu mesurau lliniaru nes y nodir cynlluniau gwaith manwl, ac felly cyflwynir adroddiad ar y mater hwn yn y cynllun rheoli amgylcheddol.

15 Dŵr wyneb

Aseswyd y câi gollyngiadau dŵr lleidiog a/neu halogedig posibl yn deillio o weithgareddau digomisiynu ar y safle i baratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw a chlirio'r safle yn derfynol gael effaith sylweddol andwyol gymedrol. Bydd gweithredu mesurau lliniaru yn sicrhau bod effaith yr uchod yn ddibwys. Am ragor o fanylion am y mesurau lliniaru arfaethedig gweler Atodiad 6, pwynt 8

16 Traffig a chludiant

Tybiodd yr asesiad y câi nwyddau, deunyddiau a gwastraff eu cludo i'r safle ac oddi yno ar hyd ffyrdd yn unig. Y rheswm am hyn yw mai dim ond effeithiau manteisiol cyfyngedig y byddai defnyddio cludiant rheilffordd neu ddŵr yn eu cael o gymharu â chludiant ffyrdd; byddai'n dibynnu ar argaeledd cyfleusterau addas gerllaw mannau tarddiad neu gyrchfannau neu byddai angen adeiladu'r cyfryw gyfleusterau gerllaw y mannau hynny; ac mae'n bosibl y bydd angen cludo deunyddiau ar ddechrau/diwedd pob taith ar ffyrdd o hyd. At hynny am y caiff cyflenwyr/cyfleusterau gwaredu lleol a chontractwyr lleol eu defnyddio lle bynnag y bo modd, mae Magnox o'r farn nad yw defnyddio cludiant dŵr yn debygol o fod yn briodol.

Amcangyfrifwyd lefelau traffig yn seiliedig ar y senario gwaethaf posibl sef y caiff nwyddau ac ati eu cludo i'r safle ac oddi yno yn ystod y prosiect digomisiynu ar y ffordd. Bydd Magnox North Ltd yn gweithredu Cynllun Teithio a gaiff ei drafod ymlaen llaw gyda'r awdurdod priffyrdd perthnasol a Chyngor Sir Ynys Môn.

Mae Magnox North Ltd wedi cynnig mesurau lliniaru i atal sylweddau yn deillio o weithgarwch digomisiynu yn ymddangos ar ffyrdd gerllaw'r orsaf, megis golchi olwynion, gorchuddio cerbydau â chynfas. Fodd bynnag, os bydd hyn yn digwydd o ganlyniad i weithgarwch digomisiynu bydd Magnox North Ltd yn clirio'r deunydd.

17 Llygredd golau

Bydd Magnox North Ltd yn sicrhau y caiff goleuadau cyfeiriol eu defnyddio i leihau llygredd golau dros ben sy'n deillio o unrhyw oleuadau dros dro ychwanegol tra bydd yr orsaf ynni yn cael ei digomisiynu. Bydd y mesur lliniaru hwn yn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar olygfeydd gyda'r nos yn ystod unrhyw un o'r camau digomisiynu o gymharu â goleuadau gweithredol.

18 Symud/dymchwel strwythurau ar y môr

Cyn symud strwythurau ar y môr megis y lanfa, bydd Magnox North Ltd yn ymgynghori ag Ystad y Goron, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Cyngor Sir Ynys Môn cyn dechrau ar y gwaith o ddigomisiynu'r cyfryw strwythurau.

19 Economaidd-gymdeithasol

Disgwylir effeithiau cymdeithasol ac economaidd andwyol sylweddol o ganlyniad i gau Atomfa Wylfa. Nid oes fawr ddim cyfle i Magnox North Ltd atal na lleihau'r effeithiau andwyol sylweddol ar yr economi leol. Caiff mesurau lliniaru eu gweithredu gan Magnox North Ltd i gynorthwyo unigolion yr effeithiwyd arnynt a oedd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol ar y safle, gan gynnwys cynghori, hyfforddi a chynorthwyo staff, ac mae rhywfaint o le i adleoli staff pan fydd cyfleoedd yn codi. Bydd Magnox North Ltd hefyd yn annog ei gontractwyr i ddefnyddio llafur, cyfarpar, deunyddiau a gwasanaethau lleol cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol.

ATODIAD 5

Caniatâd am Brosiect Digomisiynu Rhif 1 25 Mawrth 2009

RHEOLIADAU ADWEITHYDDION NIWCLEAR (ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL AR GYFER DADGOMISIYNU) 1999 (Y RHEOLIADAU)

CANIATÂD

a roddwyd o dan reoliad 4(b)
yn unol â rheoliad 8(3)
ynghyd ag amodau a osodwyd arno o dan reoliad 8(4)

ATOMFA WYLFA

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn dilyn cais o dan y Rheoliadau am ganiatâd i gynnal y prosiect* o dan reoliad 4(a) ac yn unol â gofynion rheoliad 8(3) ac yn ddarostyngedig i amodau a osodwyd arno o dan reoliad 8(4) yn rhoi caniatâd ar gyfer y prosiect o dan reoliad 4(b), fel a ganlyn:

(i) dymchwel pob adeilad ac eithrio adeiladau'r adweithyddion;

(ii) newid adeiladau'r adweithyddion am gyfnod o oedi;

(iii) adfer a phecynnu gwastraff lefel ganolraddol weithredol, a storio'r gwastraff lefel ganolraddol hwnnw hyd nes y gellir ei symud o'r safle;

(iv) clirio'r safle, yn ddarostyngedig i'r amodau a osodwyd ar y caniatâd o dan reoliad 8(4).

Dyddiedig:

Llofnodwyd

Ar gyfer ac ar ran
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Dr A N Hall
Unigolyn a awdurdodwyd i weithredu yn enw'r uchod

* Project fel y'i diffinnir yn rheoliad 2

RHEOLIADAU ADWEITHYDDION NIWCLEAR (ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL AR GYFER DADGOMISIYNU) 1999 (Y RHEOLIADAU)

AMODAU

a osodwyd o dan reoliad 8(4)

ar Ganiatâd am Brosiect Digomisiynu Rhif 1 a roddwyd o dan reoliad 4(b)

ATOMFA WYLFA

Amod 1

Bydd y prosiect* yn dechrau cyn pen pum mlynedd o ddyddiad y Caniatâd hwn.

Amod 2

(1) Mae'n ofynnol i'r trwyddedai lunio a gweithredu cynllun rheoli amgylcheddol a fydd yn cynnwys mesurau lliniaru i atal, lleihau, a lle y bo'n bosibl, wrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd.

(2) Ni chyflawnir y prosiect ac eithrio yn unol â'r cynllun rheoli amgylcheddol.

Amod 3

O fewn 90 o ddiwrnodau i ddyddiad y Caniatâd hwn, gan gyfeirio at y datganiad amgylcheddol a gyflwynwyd o dan reoliad 5(1) bydd y cynllun rheoli amgylcheddol yn:

a. rhestru'r mesurau lliniaru a nodwyd eisoes yn y datganiad amgylcheddol;

b. rhestru'r opsiynau ar gyfer cyflawni gweithgareddau gwaith lle y gall fod angen mesurau lliniaru ond lle mai dim ond yn y dyfodol y bydd yn bosibl dewis opsiwn;

c. rhestru'r gweithgareddau gwaith lle y gall fod angen mesurau lliniaru ond lle mai dim ond yn y dyfodol y bydd yn bosibl cynnal asesiadau i nodi mesurau lliniaru.

Amod 4

Yn dilyn amod 3, bydd y cynllun rheoli amgylcheddol:

a. gan gyfeirio at amod 3b, yn nodi'r mesurau lliniaru ar gyfer opsiynau a ddewiswyd, gan roi'r rhesymau dros eu dewis;

---

* Prosiect fel y'i diffinnir yn rheoliad 2

b. gan gyfeirio at amod 3c, yn nodi'r mesurau lliniaru o asesiadau a gynhaliwyd, gan roi'r rhesymau dros eu dewis;

c. yn disgrifio effeithiolrwydd y mesurau lliniaru a gymerwyd dros amser;

d. yn disgrifio newidiadau sylweddol a wnaed i'r mesurau lliniaru yng ngoleuni profiad, gan roi'r rhesymau dros y cyfryw newidiadau.

Amod 5

Mae'n ofynnol i'r trwyddedai:

a. cyflwyno'r cynllun rheoli amgylcheddol i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o fewn 90 o ddiwrnodau i ddyddiad y Caniatâd hwn a bob blwyddyn ar y dyddiad y daeth y cyfnod hwn o 90 o ddiwrnodau i ben neu o fewn y cyfryw gyfnod hwy ag y gall yr Awdurdod Gweithredol gytuno arno, bydd y trwyddedai yn cyflwyno cynllun rheoli amgylcheddol wedi'i ddiweddaru;

b. darparu'r cynllun rheoli amgylcheddol i'r cyhoedd o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad yr anfonwyd y cynllun i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, neu o fewn y cyfryw gyfnod hwy ag y gall yr Awdurdod Gweithredol gytuno arno; gall y cynllun ddisodli fersiynau cynharach.

Amod 6

Mae'n ofynnol i'r trwyddedai hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o unrhyw newid pwysig a wneir i fesur lliniaru i atal, lleihau neu lle y bo'n bosibl, wrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd o leiaf 30 diwrnod cyn y dyddiad y gwneir y newid, neu o fewn y cyfryw gyfnod byrrach ag y gall yr Awdurdod Gweithredol gytuno arno.

Dyddiedig:

Llofnodwyd **Ar gyfer ac ar ran**

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Dr A N Hall

Unigolyn a awdurdodwyd i weithredu yn enw'r uchod

Atodiad 6 Crynodeb o'r manteision a'r anfanteision amgylcheddol a'r mesurau lliniaru

Ceir isod grynodeb o fanteision ac anfanteision yr effeithiau amgylcheddol a nodwyd gan Magnox North Ltd. Mae'r trwyddedai wedi ymrwymo i weithredu unrhyw fesurau lliniaru a nodwyd yn y datganiad amgylcheddol a'r dystiolaeth ategol (a bydd yn ofynnol iddo wneud hynny yn unol â'r cynllun rheoli amgylcheddol y cyfeiriwyd ato yn yr amodau a osodwyd ar y caniatâd hwn).

1 Ansawdd aer a ffactorau hinsoddol

Aseswyd tri phrif faes pwnc: allyriadau traffig; llwch o'r safle; a llwch o gerbydau ar gyfer pob un o dri chyfnod y prosiect digomisiynu.

O fewn y meysydd pwnc hyn nodwyd bod un effaith dros dro yn effaith sylweddol andwyol dymor canolig ar gyfer y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw a chlirio'r safle yn derbynol

Ymwnâi'r effaith â chynnydd mewn llwch wrth dderbynyddion ar hyd llwybrau traffig. Nododd y datganiad amgylcheddol weithgareddau lliniaru ar gyfer rheoli llwch o gerbydau oddi ar y safle ar hyd llwybrau cludo a fyddai, petaent yn cael eu gweithredu, yn golygu na fyddai'r effaith yn un sylweddol. Mae'r mesurau lliniaru hyn fel y'u nodwyd yn y datganiad amgylcheddol yn cynnwys:

- sicrhau bod deunyddiau yn cael eu cludo yn briodol ee gorchuddio cerbydau sy'n cludo rwbel a llwythi a allai fod yn llychlyd â chynfasau;
- glanhau mynedfa'r safle yn rheolaidd;
- defnyddio cyfleusterau golchi olwynion a chyrff cerbydau lle y bo hynny'n briodol ar gyfer cerbydau nwyddau trwm sy'n gadael y safle;
- defnyddio chwistrellau dŵr ar gyfer gweithgareddau allanol fel y bo'n briodol;
- gorchuddio arwynebau â chynfasau, hau arwynebau a/neu ddefnyddio ffensys gwynt fel y bo'n briodol;
- gorchuddio cynwysyddion;
- osgoi defnyddio tir heb wyneb caled;
- glanhau ffyrdd ar y safle.

2 Archeoleg a threftadaeth ddiwylliannol

Nid oes unrhyw nodweddion o ddiddordeb archeolegol sydd wedi goroesi ar safle'r orsaf ynni, ac eithrio'r orsaf ynni ei hun; felly ym marn Magnox North Ltd nid oedd yn briodol cynnal unrhyw asesiadau pellach.

Mae'n bosibl y gallai rhai o nodweddion y dirwedd hanesyddol fod wedi goroesi ymyrraeth gwaith adeiladu yng nghyffiniau'r orsaf ynni, gan gynnwys y maes parcio a'r maes parcio gorlanw rhwng Porth y Pistyll a Phorth y Gwartheg ac yng nghyffiniau'r all-lif ym Mhorth Wnal ac o fewn daliad tir ehangach yr Awdurdod Digomisiynu Niwclear. Nododd Magnox North Ltd yn y datganiad amgylcheddol y cynhelir arolwg ar droed i nodi unrhyw dystiolaeth ar yr wyneb o feddiannaeth

neu ddefnydd tir blaenorol, gan gynnwys gweithrediadau amaethyddol, diwydiannol a morwrol a gweithrediadau amser rhyfel, cyn iddo ddechrau ar unrhyw waith digomisiynu.

Cydnabuwyd pwysigrwydd y dreftadaeth ddiwydiannol gan Magnox North Ltd a chyn dechrau ar unrhyw waith digomisiynu bydd yn ymgynghori â Cadw a'r Awdurdod Digomisiynu Niwclear ynghylch arolwg Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn Atomfa Wylfa. Yn ystod y prosiect digomisiynu, caiff cofnodion hanesyddol a chofnodion digomisiynu'r safle eu symud i ganolfan Archifdy Niwclear Cenedlaethol yr Awdurdod Digomisiynu Niwclear, pan gaiff ei chomisiynu.

3 Ecoleg

Aseswyd 19 o feysydd pwnc ar gyfer y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw. Ystyriwyd bod yr effeithiau yn ystod cyfnod clirio'r safle yn derfynol yn debyg i'r rhai a nodwyd yn yr asesiad o'r cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw. Cyn dechrau ar y gwaith o glirio'r safle yn derfynol, câi arolygon ecolegol eu cynnal i roi asesiad cyfoes.

Roedd 15 maes pwnc lle y cafwyd bod effeithiau andwyol sylweddol yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw. Os na chymerwyd unrhyw fesurau lliniaru, nodwyd yr effeithiau andwyol sylweddol canlynol:

- tarfu ar ddarnau bach o laswelltir ar glogwyni arfordirol a llystyfiant ymyl traeth drwy ddefnyddio Mannau Storio 1 a 2;
- colli cynefin neu darfu ar gynefin sy'n eithaf diddorol o safbwynt botanegol ym Man Storio 2;
- tarfu ar gyfadeiliau cynefin y clogwyn gerllaw drwy ddarnio'r coridor bywyd gwyllt arfordirol o ganlyniad i ymestyn y man storio i ardal y clogwyn;
- y posibilrwydd o ddiraddio llystyfiant cyfoethog eu rhywogaethau yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) ac Arfordir Treftadaeth ac yn SoDdGA Tre'r Gof a achosid drwy ddyddodi llwch a grëwyd gan weithgareddau dymchwel ar y safle;
- lladd gwiberod yn ddamweiniol wrth i danc dŵr y dref gael ei ddymchwel;
- tarfu ar bob rhywogaeth o adar, gan gynnwys gwenoliaid y môr a gwylanod, drwy adeiladu argae coffr, dymchwel cyfadail porthdy'r arllwysfa a dymchwel y lanfa ddŵr oeri ar y môr a strwythurau derbyn dŵr môr ar y môr gan ddefnyddio ffrwydron;
- gallai colli cynefin a mwy o aflonyddu amharu'n ddifrifol ar y nythfa gwylanod ym Man Storio 1;
- gallai colli cynefin a/neu adeiladau effeithio ar adar sy'n bridio, gan gynnwys colli nythod, wyau a chywion dibynnol;
- colli Adeilad 99 lle mae corystlumod cyffredin yn clwydo a cholli adeiladau eraill sydd â rhywfaint o botensial neu gryn botensial i gynnal

ystlumod sy'n clwydo a cholli safleoedd clwydo posibl a gwirioneddol o ganlyniad;

- tarfu ar ystlumod sy'n chwilota a achosir gan olau a allyrrir o'r safle;
- tarfu ar forfilod a morloi llwyd drwy ddymchwel y lanfa ddŵr oeri a strwythurau derbyn dŵr môr ar y môr gan ddefnyddio ffrwydron.

Fodd bynnag, nododd y datganiad amgylcheddol fesurau lliniaru sy'n ymwneud â phob un o'r uchod a fyddai, petaent yn cael eu gweithredu, yn lleihau'r holl effeithiau cymaint nes eu bod yn ddibwys. Ymhlith y mesurau lliniaru hyn mae:

- defnyddio lleiniau clustogi;
- sicrhau na fydd Man Storio 1 yn ymestyn y tu hwnt i derfynau'r ffens ddiogelwch allanol;
- defnyddio mesurau rheoli llwch gan ddefnyddio chwistrellau dŵr;
- defnyddio ffensys sy'n atal ymlusgiaid a symud ymlusgiaid sydd yn ardal waith tanc dŵr y dref ac adfer cynefin gwiberod addas ar ôl troed hen danc dŵr y dref;
- dymchwel yr argae coffr a chyfadail porthdy'r arllwysfa - gwaith a wneir y tu allan i dymor bridio'r adar;
- dymchwel y lanfa ddŵr oeri ar y môr a strwythurau derbyn dŵr môr ar y môr gan ddefnyddio ffrwydron gwaith a wneir y tu allan i dymhorau bridio ac ymfudo'r adar (mis Mawrth hyd fis Medi), pan fo'r llanw ar drai a sylwedydd penodedig i sicrhau na welir unrhyw forloi na morfilod yn yr ardal o leiaf 30 munud cyn i'r gwaith dymchwel ddechrau;
- symud pob cynefin nythu addas y tu allan i dymor bridio'r adar neu os nad oes modd gwneud hynny sicrhau bod ecolegydd cymwys yn archwilio'r nythod a bod unrhyw waith yn cael ei atal dros dro os bydd adar yn bridio;
- sicrhau bod adeiladau sy'n cynnal adar sy'n nythu yn cael eu dymchwel y tu allan i dymor bridio'r adar;
- sicrhau y defnyddir goleuadau cyfeiriol, ac y gwneir cyn lleied o waith â phosibl gyda'r nos a sicrhau mai dim ond yn ystod y gaeaf y gwneir y cyfryw waith;
- dymchwel Adeilad 99 o dan drwydded Rhywogaethau Ewropeaidd a Warchodir (EPS) gan sicrhau y cedwir ystlumod allan yn ddiogel ac y darperir safleoedd clwydo eraill ar eu cyfer;
- arolygu pob adeilad â rhywfaint o botensial neu gryn botensial i gynnal ystlumod sy'n clwydo ddwy flynedd cyn eu dymchwel a sicrhau bod Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cytuno ar fesurau lliniaru ar gyfer clwydi a ganfuwyd ac yn eu trwyddedu;
- sicrhau bod y gwaith o ddymchwel adeiladau lle na chanfuwyd unrhyw ystlumod yn cael ei wneud dan frîff gwylio a oruchwylir gan ecolegydd cymwys a phrofiadol addas; darparu clwydi sy'n addas i'w defnyddio yn yr haf ac yn y gaeaf cyn i unrhyw waith dymchwel ddechrau ac fel y cytunwyd gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Er na nodwyd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar gyfer y cyfnod gofalu a chynnal a chadw, mae'n bosibl y bydd effeithiau manteisiol am fod y safle yn debygol o gael ei gyfrefu gan dderbynyddion ecolegol gwerthfawr. Aseswyd bod y fantais hon yn effaith ganolig ond nid yn un sylweddol.

4 Daeareg, hydroddaeareg a phriddoedd

Aseswyd 17 o effeithiau ar gyfer y cyfnod gofalu a chynnal a chadw ac ystyriwyd bod y rhain hefyd yn debyg ar gyfer cyfnod clirio'r safle yn derfynol. O'r effeithiau a nodwyd:

- nodwyd bod dwy yn fantais sylweddol;
- nodwyd bod tair yn effeithiau andwyol sylweddol allweddol:
- nodwyd bod tair yn effeithiau andwyol sylweddol allweddol posibl;
- nodwyd bod tair yn effeithiau hyd at effaith andwyol sylweddol allweddol;
- nodwyd bod un yn effaith andwyol sylweddol;
- nodwyd bod un yn effaith hyd at effaith andwyol sylweddol.

Byddai'r ddwy effaith fanteisiol a nodwyd yn deillio o waith i adfer tir halogedig a/neu ddŵr daear (effeithiau ar ôl cwblhau'r gwaith adfer) pe bai ei angen.

Ymwnâi'r effeithiau hyd at effeithiau andwyol sylweddol allweddol, effeithiau andwyol sylweddol allweddol posibl ac effeithiau andwyol sylweddol allweddol â newidiadau yn ansawdd y pridd a/neu ddŵr daear a gafodd eu halogi'n anfwriadol o ganlyniad i storio, trin neu ddefnyddio priddoedd/deunyddiau halogedig; symud neu wasgaru priddoedd sydd eisoes wedi'u halogi yn anfwriadol neu'n ddireolaeth; adfer tir halogedig (gwneud y gwaith) os bydd angen; newidiadau yn llif dŵr daear o ganlyniad i symud halogiad sy'n bodoli eisoes; a chreu llwybrau halogiad a gorlifoedd neu ollyngiadau halogiad newydd.

Ymwnâi'r effaith andwyol sylweddol â diraddio deunyddiau adeiladu oherwydd lefelau uchel o sylffad yn y pridd neu ddŵr daear neu faterion geodechnegol a materion halogiad yn deillio o godi adeiladau newydd ar y safle. Ymwnâi'r effaith hyd at effaith andwyol sylweddol ag effeithiau anfwriadol ar lefel, llif ac ansawdd dŵr daear o ganlyniad i fewnlenwi a bylchu basloriau dwfn i atal pyllau rhag ffurfio.

Nodwyd bod un effaith fanteisiol a phedair effaith sylweddol andwyol yn ystod y cyfnod gofalu a chynnal a chadw yn effeithiau parhaus sy'n deillio o dasgau a gyflawnir yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw. Ymwnâi'r effeithiau hyn â gwaith i adfer tir a/neu ddŵr daear halogedig (manteisiol); symud halogiad sy'n bodoli eisoes; creu llwybrau halogiad newydd; halogi priddoedd a/neu ddŵr daear yn anfwriadol drwy ddefnyddio deunyddiau mewnlenwi amhriodol; ac effeithiau ar lif ac ansawdd dŵr daear o ganlyniad i fewnlenwi basloriau dwfn. Mae mesurau lliniaru yn cynnwys:

- astudiaeth ddesg, archwiliadau o'r safle, monitro, gwaith adfer (lle y bo'n briodol) a llunio asesiadau risg, datganiadau dull a chynlluniau wrth gefn

cyn i unrhyw waith ddechrau fel y gellir mabwysiadu arferion gwaith priodol o'r cychwyn cyntaf;

- mynediad cyfyngedig i ardaloedd gweithio y gwyddys eu bod yn halogedig neu a allai fod yn halogedig;
- cydymffurfio â Chanllawiau Atal Llygredd perthnasol ac adroddiadau technegol Asiantaeth yr Amgylchedd;
- archwilio priddoedd halogedig cyn symud lleiniau caled neu adeiladau/sylfeini, a chyn hynny gwaith adfer os bydd angen;
- gweithgarwch dihysbyddu yn gysylltiedig â gwaith cloddio, os oes angen a gwaith monitro a threfniadau priodol ar gyfer rheoli/gwaredu unrhyw ddŵr sy'n codi;
- pabellu cloddfeydd agored, os oes angen;
- cydymffurfio â Safon Brydeinig BS 5930 *Code of practice for site investigations*[21] a BS 10175 *Investigation of potentially contaminated sites. Code of practice*;[22]
- samplu a phrofi priddoedd, gwastraff a deunyddiau cyn eu defnyddio, fel y bo'n briodol;
- defnyddio Cynllun Rheoli Gwastraff Safle;
- didoli a gwahanu priddoedd, gwastraff a deunyddiau ar y safle fel y bo'n briodol;
- rheoli dŵr glaw ffo o fannau storio ar gyfer priddoedd, gwastraff a deunyddiau sy'n halogedig neu a allai fod yn halogedig;
- bylchu unrhyw wasanaethau a sylfeini sy'n weddill i leihau'r tebygolrwydd y caiff pyllau eu ffurfio;
- byndio, protocoliau trafod priodol, cynlluniau wrth gefn ar gyfer gollyngiadau;
- profion sylffad a choncrid o ansawdd priodol mewn mannau lle y bwriedir gosod concrid
- mesurau lliniaru ar gyfer rheoli llwch gan gynnwys defnyddio chwistrellau dŵr a rheoli unrhyw ddŵr gwastraff sy'n deillio o hynny yn briodol a gwaith glanhau ffyrdd ar y safle;
- defnyddio golchyddion olwyni sy'n ailgylchredeg ar gerbydau nwyddau trwm sy'n gadael y safle lle y bo'n briodol;

Bydd gweithredu'r mesurau lliniaru hyn a mesurau lliniaru eraill fel y nodir yn y datganiad amgylcheddol yn lleihau'r holl effeithiau cymaint fel eu bod yn ddibwys.

5 Tirwedd a gweledol

Daeth yr asesiad i'r casgliad y bydd y prosiect digomisiynu, yn yr hirdymor, o gryn fudd i dirwedd a chymeriad gweledol yr ardal. Aseswyd 27 o ardaloedd cymeriad/lleoliadau â golygfeydd i nodi unrhyw effeithiau gweledol. Aseswyd wyth nodwedd tirwedd. Ar gyfer pob un o'r ardaloedd/nodweddion gweledol a thirwedd disgrifir yr effaith a'r mesurau lliniaru ar gyfer y cyfnodau canlynol: paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw; dechrau'r cyfnod gofalu a chynnal a chadw; 20 mlynedd ar ôl dechrau'r cyfnod gofalu a chynnal a chadw; cyfnod clirio'r safle yn derfynol; ac ar ôl cyfnod clirio'r safle yn derfynol (y gaeaf).

Yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw nodwyd bod golygfeydd o nifer o wylfannau, gan gynnwys y rhai a leolir yn yr AOHNE, llwybrau arfordirol Ynys Môn a Phen yr Wylfa, o'r gwaith datgymalu a goleuadau ychwanegol achlysurol gyda'r nos a gwaith addasu achlysurol ar yr adweithydd yn effaith sylweddol allweddol a sylweddol andwyol tymor canolig. Ar ôl i'r safle gael ei glirio'n derfynol nodir bod effeithiau ar y golygfeydd o lwybrau arfordirol Mynydd y Garn, Ynys Môn a Phen yr Wylfa ac o'r tu mewn i'r AOHNE, yn rhai sylweddol allweddol a sylweddol manteisiol hirdymor iawn. Dim ond am gyfnod y byddai'r effeithiau andwyol yn para ac oherwydd agosrwydd a lleoliad y golygfeydd yr effeithid arnynt ni fyddai'n ymarferol darparu unrhyw fesurau sgrinio ychwanegol.

O ran nodweddion tirwedd, ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol. Ar ôl clirio'r safle'n derfynol, nodwyd effeithiau sylweddol manteisiol hirdymor iawn ar gyfer yr amgylchedd adeiledig yn safle Wylfa a lleoliad yr adeiladau rhestredig ym Melin Cafnan.

6 Sŵn a dirgrynu

Aseswyd dau brif faes pwnc ar gyfer y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw, y cyfnod gofalu a chynnal a chadw, cyfnod clirio'r safle'n derfynol a'r cyfnod ar ôl clirio'r safle'n derfynol.

Ar gyfer y cyfnod gofalu a chynnal a chadw, ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol am y bydd dod â'r gweithgareddau paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw i ben yn cael effeithiau manteisiol hirdymor. Ar ôl clirio'r safle yn derfynol, bydd rhoi'r gorau i weithgareddau ar y safle a diflaniad y traffig cysylltiedig yn cael effeithiau manteisiol parhaol hirdymor.

Yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw a chyfnod clirio'r safle'n derfynol, nodwyd na fyddai sŵn traffig na dirgrynu yn deillio o lefelau uwch o draffig ar y rhwydwaith priffyrdd yn cael unrhyw effaith andwyol sylweddol. Nodwyd y byddai sŵn uniongyrchol o waith ar y safle yn cael effeithiau hyd at rai andwyol sylweddol ar drigolion. Fodd bynnag, hyd nes y diffinnir dulliau gweithio nid oes modd asesu'r gostyngiad mewn lefelau sŵn ac felly i ba raddau y câi'r effaith ei lleihau drwy fesurau lliniaru. Mae mesurau lliniaru yn cynnwys:

- defnyddio cyfarpar â distewyddion;

- penodi cyswllt safle penodedig y gellid cyfeirio cwynion/ymholiadau yn ymwneud â gwaith adeiladu/dymchwel ato - unrhyw gwynion y mae angen ymchwilio iddynt;
- hysbysu trigolion o weithgareddau eithriadol;
- dim gwaith a allai fod yn bwysig y tu allan i oriau gwaith arferol heb gael caniatâd yr awdurdod lleol ymlaen llaw;
- cydymffurfio â rhannau 1 a 2 o BS 5228.[20]

Cyflwynir adroddiad ar y mesurau lliniaru yn y datganiad amgylcheddol.

7 Economaidd-gymdeithasol

Aseswyd effeithiau ar gyfer y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw, y cyfnod gofalu a chynnal a chadw a'r cyfnod clirio'r safle'n derfynol. Yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw, nodwyd effaith andwyol fyrdymor sylweddol, sef lefelau uwch o ddiweithdra ar gyfer staff parhaol a chontractwyr yn yr ardal astudio. Nodwyd effeithiau andwyol hirdymor sylweddol ar gyfer dau faes pwnc: cyfleoedd cyflogaeth uniongyrchol yn y clwstwr o wardiau gerllaw'r safle, sy'n ymwneud â cholli 750 o aelodau parhaol o staff a chontractwyr dros yr hirdymor (gostyngiad o 3.86% yn y lefel cyflogaeth sylfaen yn yr ardal astudio a gostyngiad o 35.24 % yng Ngogledd Ynys Môn), a nodwyd effeithiau manteisiol byrdymor sylweddol ar gyfer contractwyr dros dro yn yr ardal astudio.

Yn ystod cyfnod clirio'r safle yn derfynol mae'r cyfleoedd cyflogaeth a grëir a'r gostyngiad bach yn y lefel diweithdra yn effeithiau manteisiol byrdymor sylweddol ar gyfer y clwstwr o wardiau gerllaw'r safle.

Nid oes fawr ddim cyfle i Magnox North Ltd atal na lleihau'r effeithiau andwyol sylweddol ar yr economi leol. Caiff mesurau lliniaru eu gweithredu i gynorthwyo unigolion yr effeithiwyd arnynt, gan gynnwys hyfforddiant a chynigir gwasanaeth cynghori i bob aelod o staff. Bydd rhywfaint o le i Magnox North Ltd reoli'r gostyngiad yn nifer y staff drwy eu trosgwlwyddo i swyddi eraill pan fydd cyfle.

Bydd Magnox North Ltd yn annog ei gontractwyr i ddefnyddio llafur, cyfarpar, deunyddiau a gwasanaethau lleol cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol. Bydd Magnox North Ltd yn rhoi gwybodaeth am gwmnïau lleol cymwys a all gymryd rhan yn y gwaith digomisiynu i'w gontractwyr.

8 Ansawdd dŵr wyneb a draeniau

Aseswyd pum maes pwnc ar gyfer y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw ac ystyriwyd bod y rhain yn debyg ar gyfer cyfnod ar ôl clirio'r safle'n derfynol. Aseswyd un maes pwnc ar gyfer y cyfnod gofalu a chynnal a chadw.

Aseswyd y câi gollyngiadau dŵr lleidiog a/neu halogedig posibl yn deillio o weithgareddau digomisiynu ar y safle i baratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw a chlirio'r safle yn derfynol gael effaith sylweddol andwyol gymedrol. Fodd bynnag, caiff mesurau lliniaru eu gweithredu yn unol â chanllawiau Asiantaeth yr

Amgylchedd ac felly ni fydd yr effeithiau uchod yn rhai sylweddol. Mae mesurau lliniaru yn cynnwys:

- chwistrellu dŵr i atal llwch a chwythir gan y gwynt rhag ymledu i leoliadau lle mae'n debyg y câi ei olchi i mewn i ddraeniau dŵr wyneb ar ôl hynny, a rheoli dŵr gwastraff sy'n deillio o hynny yn briodol;
- glanhau dyddodion llaid/llwch yn rheolaidd o ffyrdd ar y safle, gan gynnwys defnyddio golchyddion olwynion a pheiriannau glanhau ffyrdd â systemau ailgylchredeg dŵr;
- defnyddio atalfeydd gwaddod i gadw dŵr ffo, cysyniadau draenio cynaliadwy i reoli cynnwys gwaddod draeniau dŵr ffo, ffosydd torri i atal dŵr rhag mynd i mewn i gloddfeydd;
- sicrhau bod darpariaeth ar gyfer ymdrin â dŵr lleidiog;
- gorchuddio pentyrrau o bridd â chynfasau neu hau hadau arnynt;
- cynllunio a lleoli tomenni rwbel yn ofalus.

Yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw a chyfnod clirio'r safle yn derfynol, aseswyd y gallai mân ollyngiadau sylweddau ymbelydrol gael effaith andwyol sylweddol petaent yn digwydd. Bydd mesurau lliniaru, os cânt eu gweithredu, yn lleihau'r effaith hon cymaint fel ei bod yn ddibwys. Mae mesurau lliniaru yn cynnwys:

- lleoli gweithfeydd concrid a chyfleusterau trafod a storio tanwydd/cemegau wedi'u byndio yn unol â chanllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd;
- protocoliau trafod priodol i leihau'r risg y bydd concrid, sment, tanwydd, olewau a chemegau eraill yn gollwng yn unol â chanllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd;
- gwaith cynllunio i ymateb i argyfwng/gollyngiadau yn unol â chanllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd gan gynnwys pecynnau gollyngiadau a gedwir ar y safle a sicrhau bod staff hyfforddedig ar gael.

9 Traffig a chludiant

Ystyriwyd maint y newid mewn lefelau traffig a'i effaith. Ystyriwyd dau faes pwnc ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol: y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw; y cyfnod gofalu a chynnal a chadw; cyfnod clirio'r safle yn derfynol; a'r cyfnod ar ôl clirio'r safle'n derfynol. Ym mhob maes pwnc, aseswyd pedair ffordd/pedwar safle.

Yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw, nodwyd bod gan ddwy o'r ffyrdd/dau o'r safleoedd effaith andwyol tymor canolig sylweddol dros dro o ran diogelwch: ffordd yr A5025 i'r gogledd ac i'r de o'r orsaf ynni, oherwydd newidiadau yn llif y traffig. Yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw a chyfnod clirio'r safle yn derfynol, nodwyd un effaith andwyol tymor canolig sylweddol allweddol dros dro ar ffordd yr A5025 i'r de o'r orsaf ynni yn deillio o gynnydd mawr (> 50%) yn llif cerbydau nwyddau trwm ar y ffordd.

Mae Magnox North Ltd wedi ymrwymo i weithredu Cynllun Teithio fel mesur lliniaru; bwriedir iddo leihau nifer y teithiau a grëir gan yr orsaf drwy gydol y prosiect digomisiynu. Trafodir y Cynllun Teithio ymlaen llaw gyda'r awdurdod priffyrdd perthnasol a Chyngor Sir Ynys Môn.

Yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer gwaith gofalu a chynnal a chadw a chyfnod clirio'r safle yn derfynol, nodwyd effeithiau cadarnhaol hirdymor sylweddol ar gyfer ffordd yr A5025 i'r gogledd ac i'r de o'r orsaf ynni yn deillio o ostyngiad mewn lefelau traffig yn ystod y cyfnodau hyn.

Aseswyd yr holl ffyrdd a chyffyrdd eraill a nodwyd nad oedd ganddynt unrhyw effeithiau sylweddol.

Cyfeiriadau

1 Cyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC 'Council Directive 85/337/EEC of 27 June 1985 on the assessment of the effects of certain public and private projects on the environment' *Official Journal* L175 05/07/1985

2 Cyfarwyddeb y Cyngor 97/11/EC 'Council Directive 97/11/EC of 3 March 1997 amending Directive 85/337/EEC on the assessment of the effects of certain public and private projects on the environment' *Official Journal* L73 14/03/1997

3 Cyfarwyddeb y Cyngor 2003/35/EC 'providing for public participation in respect of the drawing up of certain plans and programmes relating to the environment and amending with regard to public participation and access to justice Council Directives 85/337/EEC and 97/11//EC' *Official Journal* L156 25/06/2003

4 *Nuclear Reactors (Environmental Impact Assessment for Decommissioning) Regulations 1999* OS 1999/2892 Y Llyfrfa 1999 ISBN 978 0 11 085395 6

5 *Nuclear Reactors (Environmental Impact Assessment for Decommissioning) (Amendment) Regulations 2006* OS 2006/657 Y Llyfrfa 2006 ISBN 978 0 11 074242 7

6 *Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (England and Wales) Regulations 1999* OS 1999/293 Y Llyfrfa 1999 ISBN 978 0 11 080474 3 fel y'u diwygwyd 2000 (OS 2000/2867) a 2006 (OS 2006/3295)

7 *Environmental Impact Assessment (Scotland) Regulations 1999* OS 1999/1 fel y'u diwygiwyd gan *Environmental Impact Assessment (Scotland) Regulations 2002* OS 2002/324 Y Llyfrfa 1999 ISBN 978 0 11 059107 0

8 *Health and Safety at Work etc Act 1974 (c.37)* Y Llyfrfa 1974 ISBN 978 0 10 543774 1

9 *Nuclear Installations Act 1965* fel y'i diwygiwyd OS 1974/2056 ac OS 1990/1918 Y Llyfrfa 1978 ISBN 978 0 11 801107 5

10 *Ionising Radiations Regulations 1999* OS 1999/3232 Y Llyfrfa 1999 ISBN 978 0 11 085614 8

11 *Radiation (Emergency Preparedness and Public Information) Regulations 2001* OS 2001/2975 Y Llyfrfa 2001 ISBN 978 0 11 029908 2

12 *Radioactive Substances Act 1993* Y Llyfrfa 1993 ISBN 978 0 10 541293 9

13 *Town and Country Planning Act 1990* Y Llyfrfa 1990 ISBN 978 0 10 540890 1

14 Defra *Review of Radioactive Waste Management Policy: Final Conclusions* Cm 2919 Y Llyfrfa 1995 ISBN 978 0 10 129192 7

15 *The decommissioning of the UK nuclear industry's facilities* Cyhoeddwyd gan yr Adran Masnach a Diwydiant 7574/0.2k/09/04/NP. URN 04/1598 Yr Adran Masnach a Diwydiant 2004

16 Yr Adran Masnach a Diwydiant *Managing the Nuclear Legacy: A Strategy for Action* Cm 5552 Y Llyfrfa 2002 ISBN 978 0 10 155522 7

17 *Energy Act 2004 (c.20)* Y Llyfrfa 2004 ISBN 978 0 10 542004 0

18 Yr Awdurdod Digomisiynu Niwclear *Draft Business Plan 2008/2011* Yr Awdurdod Digomisiynu Niwclear 2007 ISBN 10 1905985 04 5

19 Cyfarwyddeb 2001/42/EC 'Directive 2001/42/EC of the European Parliament and of the Council of 27 June 2001 on the assessment of certain plans and programmes on the environment' *Official Journal* L197 21/07/2001

20 BS 5228:2009 *Code of practice for noise and vibration control on construction and open sites* Rhan 1: *Noise* a Rhan 2*: Vibration* Sefydliad Safonau Prydain

21 BS 5930:1999 *Code of practice for site investigations* Sefydliad Safonau Prydain

22 BS 10175:2001 *Investigation of potentially contaminated sites. Code of practice* Sefydliad Safonau Prydain

Rhestr termau a byrfoddau

AOHNE Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

DEFRA Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

DTI Yr Adran Masnach a Diwydiant, yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio bellach.

AEE Ardal Economaidd Ewropeaidd.

EIA Asesiad o'r effaith amgylcheddol.

EIADR Rheoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu). Defnyddir y term hwn fel arfer yn nhestun yr adroddiad hwn.

EIADR99 Rheoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu) 1999.

EIADR06 Rheoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu) (Diwygio) 2006.

EMP Cynllun Rheoli Amgylcheddol.

EPS Rhywogaeth Ewropeaidd a Warchodir.

Cytundeb Euratom y cytundeb a sefydlodd Cymuned Ynni Atomig Ewrop.

FSA Yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

HSE Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Deddf HSW Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974.

ILW gwastraff lefel ganolraddol. Gwastraff â lefelau ymbelydredd sy'n uwch na'r terfynau uchaf ar gyfer gwastraff lefel isel (gwastraff sy'n cynnwys deunyddiau ymbelydrol ac eithrio'r rhai y mae'n dderbyniol cael gwared â hwy gyda sbwriel arferol, ond nad oes ganddo lefelau ymbelydredd sy'n uwch na 4 GBq/te o weithgarwch alpha neu 12 GBq/te o weithgarwch beta/gamma), ond nad yw'n ei gwneud yn ofynnol i ystyried gwresogi wrth gynllunio cyfleusterau storio neu waredu.

IRR99 Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999.

LLW gwastraff lefel isel.

NDA Yr Awdurdod Digomisiynu Niwclear(a elwid gynt yn LMA (Awdurdod Rheoli Rhwymedigaethau)). Y cyfeirir ato ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth *Managing the Nuclear Legacy: A Strategy for Action* Cm 5552 Gorffennaf 2002.

NIA65 Deddf Gosodiadau Niwclear 1965, fel y'i diwygiwyd.

NII Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear Ei Mawrhydi – rhan o HSE.

PPG Canllawiau ar Atal Llygredd.

REPPIR Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001.

RSA93 Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993.

storio diogel cadw adeiladau adweithyddion, eu cynnwys, a strwythurau eraill ar y safle i hwyluso cyfnod oedi estynedig cyn eu datgymalu.

SEA Asesiad Amgylcheddol Strategol.

SEPA Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban.

SSG Grŵp Rhanddeiliaid Safle.

TCPA(EIA)99 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr 1999 (fel y'u diwygiwyd).

TCPA90 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Printed and published by the Health and Safety Executive 04/09

HSE

Awdurdod Gweithredol
Iechyd a Diogelwch

Penderfyniad ar y cais i gynnal prosiect digomisiynu yn

Atomfa'r Wylfa

o dan Reoliadau Adweithyddion Niwclear (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Digomisiynu) 1999 (fel y'u diwygiwyd)

ailgylchu
Ar ôl gorffen â'r papur yma, cofiwch ei ailgylchu

50% wedi'i ailgylchu
Argraffwyd ar bapur mae 50% ohono wedi'i ailgylchu

NUC28W